# Papur Adolygu: Ystyried argymhellion ar ddeddfwriaeth ehangach

## Panel Adolygu Arbenigol, Mehefin 2023

Mae'r papur hwn yn ceisio rhoi trosolwg o'r prif feysydd a drafodwyd gan y Panel Adolygu Arbenigol rhwng Chwefror a Mehefin 2023, gan ymdrin â'r dyletswyddau sector cyhoeddus ehangach a grwpiau a all wynebu risg benodol o ddigartrefedd. Mae'n ceisio amlinellu argymhellion posibl i fynd i'r afael â'r rhwystrau a nodwyd yn y trafodaethau hyn.

Ar gyfer pob maes pwnc, mae'r papur yn cynnwys:

- Trosolwg o'r ddeddfwriaeth bresennol
- Y prif bwyntiau a drafodwyd gan y Panel
- Crynodeb o dystiolaeth i gefnogi'r trafodaethau hyn (mae hyn yn cynnwys trosolwg o ymchwil a phwyntiau a godwyd ar ôl ymgynghori ag arbenigwyr drwy brofiad a rhanddeiliaid.)
- Argymhellion posibl i'w hystyried gan y Panel.
  Er mwyn gallu cyfeirio atynt yn hawdd, mae'r *argymhellion cyfreithiol posibl wedi'u nodi mewn print italig coch ac argymhellion anneddfwriaethol posibl wedi'u nodi mewn glas.*

Bwriadwyd y crynodeb o'r drafodaeth a'r dystiolaeth a amlinellwyd yn y papur hwn fel nodyn atgoffa yn unig. I gael gwybodaeth fanylach, dylech gyfeirio at bapur perthnasol y Panel.

Yn yr un modd, bwriadwyd yr opsiynau a awgrymwyd ar gyfer argymhellion fel canllaw yn unig, ac mae'n bosibl y byddai aelodau'r Panel yn dymuno ystyried addasu'r geiriad neu wneud rhagor o argymhellion.

Mae cynnwys y papur hwn fel a ganlyn:


1. **Dyletswyddau Cyhoeddus Ehangach**
2. **Iechyd a gofal cymdeithasol**
   a. Cyffredinol
   b. Pobl anabl
   c. Iechyd Meddwl
   d. Defnyddio sylweddau
3. **Plant a theuluoedd**
4. **Digartrefedd ymysg pobl ifanc (gan gynnwys rhai sy'n gadael gofal)**
5. **Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol**
6. **Cyfiawnder Troseddol**
7. **Dyletswydd ar gymorth i gadw tenantiaeth**
8. **Ystyriaethau ar gyfer cysylltiad lleol**
9. **Cydraddoldeb**
10. **Deddfwriaeth gynllunio**

# 1. Dyletswyddau cyhoeddus ehangach

## Y ddeddfwriaeth bresennol

Nid oes dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus ar hyn o bryd i gyfeirio unigolyn y maent yn credu y gallai fod yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd at awdurdod tai lleol am gymorth digartrefedd.

Er hyn, mae dyletswyddau yn bodoli'n barod sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gydweithredu â gwasanaethau opsiynau tai:

Mae **adran 95 o Ddeddf Tai Cymru** yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol hybu cydweithredu rhwng adrannau tai ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus penodol (gan gynnwys awdurdod gwasanaethau cymdeithasol; landlord cymdeithasol cofrestredig; corfforaeth tref newydd; darparwr tai cymdeithasol preifat cofrestredig; ymddiriedolaeth gweithredu tai) i gydweithredu neu ddarparu gwybodaeth ar gais awdurdodau tai lleol. Gall cais o'r fath gael ei wrthod os yw'n anghydnaws â'u dyletswyddau eu hunain neu os byddai'n cael effaith andwyol ar eu swyddogaethau, ond os penderfynir gwrthod rhaid hysbysu ynglŷn â hynny yn ysgrifenedig.

Yn yr un modd, mae **adran 164 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant,** yn nodi ei bod yn ofynnol i rai cyrff sector cyhoeddus (awdurdod lleol; bwrdd iechyd lleol; ymddiriedolaeth GIG; tîm troseddau ieuenctid; y corff plismona lleol a phrif swyddog yr heddlu; yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am reoli troseddwyr; gwasanaethau prawf; a Gweinidogion Cymru) ymateb i geisiadau i gydweithredu neu am wybodaeth gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol.

Yn unol â'r GDPR, mae angen caniatâd i rannu gwybodaeth, ac eithrio mewn amgylchiadau lle tybir bod unigolyn yn wynebu risg.

## Y prif bwyntiau a drafodwyd gan y Panel

- Nodwyd na all dyletswydd i gyfeirio fod yn effeithiol oni bai fod dyletswydd hefyd i ymateb i atgyfeiriad. Fodd bynnag, roedd cytundeb cyffredinol hefyd y dylai'r asiantaethau sy'n cyfeirio gael dyletswydd i gydweithredu, yn ogystal â rhestr helaeth o'r asiantaethau a ddylai gael eu cynnwys.
- Gofynnwyd a allai'r Panel argymell dyletswydd i gyfeirio at asiantaethau nad ydynt wedi eu datganoli.
- Bu'r Panel yn ystyried a allai'r Byrddau Cynllunio Rhanbarthol chwarae mwy o ran drwy hwyluso cyfrifoldeb amlasiantaethol.
- Gofynnwyd a allai dyletswyddau atal gyfeirio at yr awdurdod lleol yn ei gyfanrwydd yn hytrach na'r awdurdod tai lleol, er mwyn annog cyfrifoldeb amlasiantaethol. Roedd y rhan fwyaf o aelodau'r Panel yn cytuno y byddai hyn yn ddefnyddiol.
- Bu'r Panel yn ystyried y mecanwaith priodol ar gyfer herio pe bai dyletswydd heb ei chyflawni gan gorff cyhoeddus y tu allan i faes tai/digartrefedd yn achosi i rywun fod yn ddigartref.
- Roedd dryswch ynglŷn â sut y mae dyletswyddau diogelu yn croestorri â digartrefedd.
- Awgrymwyd y dylai dyletswydd i gyfeirio weithredu mewn ffordd debyg i bolisi "gofyn a gweithredu" ymholi wedi'i dargedu.[1] Mae 'ymholi wedi'i dargedu' yn disgrifio adnabod

[1] Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru (2016) Y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

dangosyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel sbardun i weithiwr proffesiynol ofyn i unigolyn a yw wedi cael ei effeithio gan unrhyw rai o'r materion hyn.
- Trafododd y Panel achosion lle mae anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth a niferus, sy'n effeithio ar yr angen am gartref neu'r gallu i gadw tenantiaeth. Teimlid bod angen i iechyd a gofal cymdeithasol chwarae rhan ganolog wrth gefnogi yn yr achosion hyn.

## Crynodeb o dystiolaeth i gefnogi'r trafodaethau hyn

### Adborth gan randdeiliaid

- Mewn nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu, mae galw am well trefniadau gweithio amlddisgyblaethol (o ran cydweithio a rhannu gwybodaeth) yn thema allweddol sydd wedi codi'i phen yn aml. Er hyn, mae rhanddeiliaid wedi nodi ei bod yn bwysig sicrhau bod eglurder ynglŷn â pha asiantaeth sy'n bennaf gyfrifol am ba faes cymorth.
- Cafwyd galwadau cyson hefyd o'r sector dai am ddull partneriaeth o ddod â digartrefedd i ben yng Nghymru, a nodwyd bod gan iechyd, iechyd meddwl, gwasanaethau cymdeithasol, defnyddio sylweddau, addysg, a chyfiawnder troseddol i gyd ran hanfodol i'w chwarae.
- Roedd hyn yn amlwg iawn mewn trafodaethau ar atal yn gynharach yn y broses, lle cydnabyddid bod pobl a oedd yn wynebu risg o ddigartrefedd yn fwy tebygol o ddod i gysylltiad â'r gwasanaethau uchod, cyn iddynt gyflwyno eu hunain fel unigolion digartref.
- Er hyn, dylid nodi bod rhai gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys cyfarwyddwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn teimlo bod digon o ysgogyddion yn bodoli'n barod mewn canllawiau a deddfwriaeth i baratoi'r ffordd ar gyfer gwell cydweithio yn y maes hwn.
- Dywedodd rhanddeiliaid y gall cydweithio fod yn ddibynnol ar bersonoliaeth gweithwyr proffesiynol unigol. Awgrymwyd, yn ogystal â dyletswyddau cyfreithiol, y gallai edrych ar gyfleoedd ariannu ar y cyd fod yn ffordd fuddiol o annog cydweithio.
- Cyfeiriodd rhanddeiliaid at yr angen am adnoddau i helpu i sicrhau mwy o gydweithio.

### Adborth gan Arbenigwyr drwy Brofiad

- Roedd adborth yn dangos y gallai ymyriadau cynharach gan wasanaethau cyhoeddus fod wedi atal digartrefedd rhai pobl.
- Cyfeiriodd llawer at rwystredigaeth wrth iddynt orfod ailadrodd eu stori wrth nifer o wahanol weithwyr proffesiynol, sy'n gallu bod yn brofiad torcalonnus, a dywedasant nad oedd digon o gydweithio rhwng asiantaethau.
- Roedd yr arbenigwyr drwy brofiad yn teimlo y gall fod yn anodd gwahaniaethu rhwng y cymorth a ddarperir gan wahanol dimau, a bod cael cymorth yn bwysicach nag o ble roedd y cymorth yn dod.

### Ymchwil

- Roedd bron i draean (30%) o'r rhai a oedd â phrofiad personol o ddigartrefedd yn rheoli cyflyrau iechyd hirdymor ar yr adeg y cawsant eu nodi fel unigolion digartref mewn data iechyd rheolaidd.[2]
- Mae'r gyfradd ar gyfer marwolaethau y gellid bod wedi eu hosgoi ymhlith rhai achosion marwolaeth yn llawer uwch ar gyfer unigolyn â phrofiad o ddigartrefedd nag ar gyfer y boblogaeth

[2] Song J, Moreno-Stokoe C, Grey CNB, Davies AR. (2021). Iechyd unigolion sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd yng Nghymru, yn ystod y pandemig COVID-19. Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru.

gyffredinol yng Nghymru.[3] Er enghraifft, mae pobl sy'n profi digartrefedd ddwywaith mor debygol â'r boblogaeth gyffredinol o farw o drawiad ar y galon a chlefyd cronig y galon, ar oedran cyfartalog o 59 oed, sy'n iau na'r boblogaeth gyffredinol.[4]

- Cymorth iechyd meddwl yw'r angen mwyaf cyffredin ymhlith y rhai sy'n cysylltu ag awdurdodau lleol i gael cymorth digartrefedd yn Lloegr.[5] Yn yr un modd, mae cymorth iechyd meddwl yn angen cyffredin yng Nghymru.
- Dangosodd astudiaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru[6] a oedd yn dadansoddi anghenion iechyd pobl â phrofiad personol o ddigartrefedd yn ystod pandemig COVID-19 fod 30% o'r bobl a oedd yn profi digartrefedd ar y stryd yn dweud bod camddefnyddio sylweddau yn ffactor a oedd wedi cyfrannu tuag at eu digartrefedd.
- Canfu adolygiad o dystiolaeth y Ganolfan Effaith Digartrefedd ar iechyd meddwl[7] fod gwasanaethau iechyd meddwl a thai ar y cyd yn cael eu hystyried yn well na gofal iechyd meddwl ar ei ben ei hun. Roedd adolygiad systematig yn nodi bod cymorth iechyd meddwl â materion tai yn cael llawer mwy o effaith nag ymyriadau iechyd meddwl yn unig.
- Canfu '*What works in inclusion health: overview of effective interventions for marginalised and excluded populations*'[8] mai ymyriadau aml-gydran â gofal wedi'i gydlynu yw'r rhai mwyaf effeithiol, ac y dylent gynnwys gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill. Mae gweithio mewn partneriaeth a chynllunio gwasanaethau o amgylch y person cyfan yn angenrheidiol er mwyn cael y canlyniadau gorau.
- Roedd gwaith maes a gynhaliwyd fel rhan o *Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2021* yn disgrifio cynnydd cadarnhaol mewn gwaith amlasiantaethol â chydweithwyr iechyd drwy gydol Pandemig COVID-19[9] yn arwain at well canlyniadau wrth i bobl sy'n profi digartrefedd geisio cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl neu gael cymorth i roi'r gorau i ddefnyddio sylweddau.

## Argymhellion posibl

***Dyletswydd i gyfeirio***

*1a. Dylid cyflwyno dyletswydd i gyfeirio at yr awdurdod tai lleol mewn deddfwriaeth digartrefedd yng Nghymru. Byddai gan Lywodraeth Cymru ddarpariaeth i nodi'r sefydliadau a fyddai'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd hon (gan gynnwys cael caniatâd gan lywodraeth y DU ar gyfer sefydliadau sy'n dod dan bwerau a gadwyd yn ôl). Dylai sefydliadau o'r fath gynnwys:*

*i. Adrannau gwasanaethau cymdeithasol (yn yr un awdurdod lleol â'r adran ddigartrefedd berthnasol ac o awdurdodau gwahanol).*

*ii. Pob agwedd ar y GIG, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl.*

*iii. Penaethiaid ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion, a phenaethiaid colegau addysg bellach.*[10]

---

[3] Grey CNB a Woodfine L. (2019). Lleisiau'r rhai sydd â phrofiadau personol o ddigartrefedd a niwed yng Nghymru: llywio gwaith atal ac ymateb. Caerdydd: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

[4] Watson I, MacKenzie F, Woodfine L ac Azam S. (2019). Gwneud Gwahaniaeth. Tai ac Iechyd: Yr Achos dros Fuddsoddi. Caerdydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

[5] Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. (2021). Ystadegau Digartrefedd.

[6] Gweler https://phw.nhs.wales/publications/publications1/iechyd-unigolion-sydd-a-phrofiad-personol-o-ddigartrefedld-yng-nghymru-yn-ystod-y-pandemig-covid-19-ffeithlun/

[7] Gweler https://assets-global.website-files.com/59f07e67422cdf0001904c14/61deb16c421740401955c829_CHI.WWC.EvidenceNotes.MentalHealth.pdf

[8] https://www.thelancet.com/journals/lancet/article/PIIS0140-6736(17)31959-1/fulltext

[9] Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Young, G., Watts, B. a Wood, J. (2021) Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2021. t.35

[10] Gallai'r ddyletswydd hon ymestyn i adnabod pobl ifanc a allai fod yn ddigartref ac adnabod rhieni a allai fod yn ddigartref.

*iv. Adrannau'r Adran Gwaith a Phensiynau.*

*v. Troseddau Ieuenctid.*

*vi. Prawf.*

*vii. Carchardai a chanolfannau cadw cyfiawnder troseddol eraill.*

*viii. Yr heddlu, wrth gymhwyso'r argymhelliad yn yr Alban.*

*ix. Y Swyddfa Gartref pan yn ymwybodol bod ceisiwr lloches sy'n cael llety dan Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 wedi cael statws ffoadur ac o ganlyniad y bydd yn wynebu bygythiad o ddigartrefedd cyn pen chwe mis (ac yn llawer cynt o bosibl).*[11]

*x. Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn mewn cysylltiad â llety i'r lluoedd arfog.*[12]

*xi. Landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.*

*xii. Unrhyw rai eraill y gallai'r Panel eu hargymell.*

*1b. Dylid cyflwyno canllawiau yn ymwneud â'r ddyletswydd i gyfeirio, a ddylai weithredu ar sail ymholi wedi'i dargedu, tebyg i "gofyn a gweithredu," lle codir ymwybyddiaeth o ffactorau adnabod, megis crynhoi ôl-ddyledion rhent neu anawsterau ariannol eraill a allai arwain at risg o ddigartrefedd; ymddygiad tenantiaid neu weithgarwch a allai arwain at risg o ddigartrefedd; amgylchiadau eraill, gan gynnwys cam-drin domestig, neu achos llys.*

*1ci. Dylid rhoi dyletswydd ar landlordiaid preifat i gyfeirio tenantiaid sy'n wynebu risg o ddigartrefedd drwy gofrestru â Rhentu Doeth Cymru.*

*1cii. Dylai Llywodraeth Cymru geisio creu dyletswydd i gyfeirio ar gyfer landlordiaid preifat drwy negodi gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, os cyflwynir protocol cyn gweithredu ar gyfer landlordiaid preifat, y dylai'r ddyletswydd i gyfeirio fod yn rhan o ofynion y protocol, pan gyflwynir rhybudd lle mae angen meddiannu.*

***Cryfhau ac ymestyn y ddyletswydd i gydweithredu***

*2a. Dylai gwasanaethau cymdeithasol gael yr un mesurau llym i gydweithredu neu ddarparu gwybodaeth i wasanaethau opsiynau tai ag sy'n berthnasol i sefydliadau allanol. Hynny yw, na ellir gwrthod cais i gydweithredu neu ddarparu gwybodaeth i'r awdurdod tai lleol oni bai fod y gwrthodiad yn ysgrifenedig, ac os byddai cyflawni'r cais hwn yn groes i'w dyletswyddau neu'n cael effaith andwyol ar eu swyddogaethau.*

*2bi. Dylid galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio ei phŵer dan is-adran 6 o adran 95 yn Neddf Tai (Cymru) 2014 i ymestyn y rhestr o gyrff sector cyhoeddus y gellir gofyn iddynt gydymffurfio â chais gan yr awdurdod tai lleol i gydweithredu neu ddarparu gwybodaeth. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys ysgolion, colegau a chyrff y GIG.*

---

[11] Gweler y nodyn cyfreithiol blaenorol ar raddfeydd amser sy'n dibynnu ar hysbysiad y Swyddfa Gartref neu benderfyniad Tribiwnlys yn rhoi caniatâd i'r ceisiwr lloches.

[12] Yn sicr, mae d, g, h ac I yn gyrff sy'n gweithredu ledled y DU, lle byddai'n rhaid i negodi ddigwydd gydag adran berthnasol y DU cyn y gellid eu nodi.

*2bii. Dylid galw ar Lywodraeth Cymru i gysylltu â'r Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn ag ymestyn y ddyletswydd dan adran 95 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 i gyrff sector cyhoeddus dan bwerau a gadwyd yn ôl, gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau a sefydliadau diogel.*

*2c. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y dylid cysoni'r ddyletswydd i gyfeirio a chydweithredu lle mae unigolyn yn ddigartref neu'n wynebu risg o ddigartrefedd ar draws y ddeddfwriaeth bresennol, gan sicrhau cyfrifoldeb clir dros gylch gorchwyl y sefydliadau sector cyhoeddus amrywiol.*

*2d. Awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol yn annog contractau perthnasol i gynnwys dyletswydd sy'n ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid sector preifat a mudiadau gwirfoddol gydweithredu a darparu gwybodaeth i awdurdodau tai lleol ar gais.*

*2e. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau yn annog awdurdodau tai lleol i gynnwys caniatâd i rannu gwybodaeth mewn ffurflenni tai a gwasanaethau cymdeithasol allweddol, gan helpu â'r ddyletswydd i rannu gwybodaeth lle mae unigolyn yn ddigartref neu'n wynebu risg o ddigartrefedd.*

*2f. Gan ddibynnu ar argymhellion y Panel ynglŷn â rheoleiddio a gorfodi, efallai y byddai'r Panel yn hoffi ystyried a yw monitro cydymffurfiad â'r ddyletswydd i gydweithredu yn angenrheidiol neu'n fuddiol.*

***Dulliau eraill o sicrhau gwell cydweithredu***

*3. Cyflwyno dyletswydd statudol i sefydlu dull gweithredu amlasiantaethol ar gyfer swyddogaethau digartrefedd drwy Fwrdd Digartrefedd ar y Cyd, yn cael ei arwain gan yr awdurdod tai lleol. Gallai'r Bwrdd hwn helpu i ddatrys unrhyw anghydfod yn ymwneud â chydweithredu.*

*4. Bod Llywodraeth Cymru yn archwilio ffyrdd eraill o'i gwneud yn ofynnol i sefydliadau iechyd, gofal cymdeithasol a chyrff sector cyhoeddus ehangach 'weithredu' o fewn eu cylch gwaith i helpu i atal digartrefedd.*

# 2. Rôl iechyd a gofal cymdeithasol wrth atal digartrefedd

## a. Cyffredinol

### Trosolwg byr o'r ddeddfwriaeth bresennol

Mae **Deddf Tai (Cymru) 2014** yn darparu bod:

- Person sy'n 'hyglwyf o ganlyniad i henaint, salwch neu anfantais feddyliol, anabledd corfforol neu reswm arbennig arall' yn cael ei gategoreiddio fel un sydd ag angen blaenoriaethol.
- Rhaid i strategaeth digartrefedd gynnwys darpariaeth yn ymwneud â chamau mewn cysylltiad â'r rhai hynny a allai fod ag angen penodol am gymorth os ydynt yn ddigartref neu os gallent fynd yn ddigartref, gan gynnwys:
    - pobl sy'n gadael yr ysbyty ar ôl triniaeth feddygol am anhwylder meddyliol fel claf mewnol
    - pobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned.
- Wrth ystyried a yw amgylchiadau ffisegol eiddo yn rhesymol i geisydd rhaid iddynt 'ystyried eu hanghenion penodol, yn enwedig ar gyfer pobl ag anableddau corfforol'.
- Mae'r enghreifftiau o gamau rhesymol a roddir i helpu i sicrhau llety yn cynnwys:

- gweithio mewn partneriaeth ag iechyd a gofal cymdeithasol i ddatblygu cynllun cyfannol i atal digartrefedd ceisydd, a allai gael ei integreiddio mewn cynllun gofal a chymorth statudol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- edrych ar gyllid i gefnogi'r gwaith o ddod o hyd i dai neu wneud addasiadau.

Mae Rhan 1 o **Orchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015** yn amlinellu 'materion i'w hystyried wrth benderfynu a yw llety yn addas ar gyfer personau sydd mewn angen blaenoriaethol neu y gallant fod mewn angen blaenoriaethol'. Mae nifer o faterion yn gysylltiedig ag iechyd y mae'n rhaid eu hystyried.

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014** yn amlinellu bod y ddyletswydd i ddod o hyd i lety a chefnogi rhai grwpiau o bobl, gan gynnwys oedolyn sy'n sâl, yn anabl neu sydd ag anghenion iechyd meddwl, yn disgyn ar ysgwyddau'r gwasanaethau cymdeithasol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

Mae'r **Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd (2016)** yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol ystyried Canllawiau wrth arfer eu swyddogaethau dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a Rhan 6 (Dyraniadau) Deddf Tai 1996.[13] Mae'r canllawiau yn cyfeirio'n gyson at anghenion iechyd/meddygol/lles ac anableddau mewn ystyr gyffredinol a hefyd at enwi anhwylder a salwch penodol.

Yn 2022, cyhoeddwyd **Canllawiau NICE**[14] ar iechyd a gofal cymdeithasol integredig i bobl sy'n profi digartrefedd.

## Y prif bwyntiau a drafodwyd gan y Panel

- Gofynnwyd a ellid cysoni'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Tai Cymru yn well, fel bod modd rhannu un asesiad yn hytrach na disgwyl i bob adran wneud asesiadau ar wahân, â phwyslais ar ddull gweithredu sy'n seiliedig ar drawma.
- Nodwyd bod dyletswyddau i gydweithredu rhwng tai a gwasanaethau cymdeithasol wedi bod ar waith ers blynyddoedd, â chanllawiau clir iawn. Fodd bynnag, mae'r panel yn cytuno nad yw hyn yn gweithio yn ymarferol.
- Cytunwyd yn gyffredinol bod angen asiantaeth arweiniol ar gyfer gwaith amlasiantaethol, ond nid gwasanaethau digartrefedd ddylai fod yn gyfrifol am yr ymateb arweiniol bob amser, oherwydd ni waeth pa mor gadarn neu seiliedig ar drawma yw'r system ddigartrefedd, mae gorfod mynd i'r system honno yn dal i allu bod yn brofiad trawmatig. (gweler y dyletswyddau cyhoeddus ehangach ar gyfer yr argymhelliad)
- Trafodwyd a allai deddfwriaeth yn ymwneud â threfniadau rhyddhau o ysbytai helpu i sicrhau cysondeb ac atal rhyddhau i ddigartrefedd. Cytunodd y Panel i edrych ar yr argymhellion yn y cyswllt hwn.
- Trafododd aelodau'r Panel ansicrwydd ynglŷn â sut y mae adolygiadau diogelu oedolion yn cael eu sbarduno, a ble mae digartrefedd yn eistedd o safbwynt ystyriaethau diogelu.

[13] allocation-of-accommodation-and-homelessness-guidance-for-local-authorities.pdf (llyw.cymru)
[14] https://www.nice.org.uk/guidance/ng214

## Crynodeb o dystiolaeth i gefnogi'r trafodaethau hyn

### Adborth gan randdeiliaid

- Pwysleisiodd rhanddeiliaid a oedd yn bresennol yn y digwyddiad i randdeiliaid iechyd a gofal cymdeithasol bwysigrwydd ymyriadau cynnar a mwy o waith amlasiantaethol.
- Cyfeiriodd rhai cydweithwyr iechyd at sbardunau sy'n bodoli'n barod er mwyn annog byrddau iechyd i wneud cynnydd ar faterion iechyd a digartrefedd a gofynasant ai dyletswyddau deddfwriaethol newydd oedd y dull cywir er mwyn annog hyn. Fodd bynnag, nododd eraill y gallai deddfwriaeth annog blaenoriaethu er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn.
- Dywedodd rhanddeiliaid hefyd fod y ffordd y caiff data eu coladu yn golygu ei bod yn anodd deall y darlun llawn o statws tai ymhlith cleifion.
- Awgrymodd rhai rhanddeiliaid fod dyletswydd i beidio â rhyddhau pobl o'r ysbyty i ddigartrefedd ar y stryd yn achosi problemau gan fod ar ysbytai angen gwelyau ar gyfer anghenion meddygol acíwt.
- Awgrymodd y rhanddeiliaid fod angen gwell cynllunio ar gyfer rhyddhau a'i bod yn bosibl y gellid defnyddio Fframwaith Cynllunio'r GIG i wneud hyn.
- Dywedwyd bod cymorth iechyd arbennig o dda i bobl a oedd yn profi digartrefedd. Roedd hyn yn gyffredinol o ganlyniad i wasanaethau allgymorth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol neu'r ffaith fod y gwasanaethau hynny wedi'u lleoli â gwasanaethau digartrefedd a thai. Teimlai'r rhanddeiliaid y gellid defnyddio ffrydiau cyllid i annog gweithio fel hyn.

### Adborth gan Arbenigwyr drwy Brofiad

- Awgrymodd pobl â phrofiad personol y gallai gweithwyr iechyd proffesiynol chwarae mwy o ran wrth sicrhau bod yr angen am le i fyw yn rhan o'r asesiad o anghenion unigolyn, ac y gallai hynny helpu i leihau achosion o ryddhau o'r ysbyty i ddigartrefedd.
- Teimlai'r arbenigwyr drwy brofiad hefyd fod angen mwy o ymwybyddiaeth o'r arwyddion cynnar a'r ffactorau sy'n sbarduno ymysg gweithwyr proffesiynol o sectorau eraill.
- Wrth ddod i gysylltiad â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, pwysleisiodd y cyfranogwyr eu bod yn teimlo nad oedd llawer o gydymdeimlad ac empathi, a'u bod yn profi rhagfarn a stigma wrth ryngweithio â'r systemau hynny.

### Ymchwil

- Roedd cyhoeddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymry yn 2019 yn cydnabod effeithiau tai gwael/ anaddas a digartrefedd ar iechyd unigolyn.[15] Mae'r adroddiad yn cydnabod bod salwch yn gallu achosi digartrefedd a hefyd ei fod yn gallu digwydd o ganlyniad i ddigartrefedd, ond nad yw bob amser yn cael ei adnabod fel ffactor sy'n ysgogi digartrefedd.
- Yn 2021 cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ymchwil[16] a oedd yn dangos bod 'profiad personol o ddigartrefedd' wedi'i nodi yng nghofnodion gofal sylfaenol a/neu eilaidd 15,472 o oedolion (16+ oed) rhwng 2014 a 2020.
- Mae cyfraddau marwolaethau y gellid eu hosgoi ymhlith rhai achosion marwolaeth yn llawer uwch ar gyfer person â phrofiad o ddigartrefedd o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.[17]

---

[15] Watson I, MacKenzie F, Woodfine L ac Azam S. (2019). Gwneud Gwahaniaeth. Tai ac Iechyd: Yr Achos dros Fuddsoddi. Caerdydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru

[16] Song J, Moreno-Stokoe C, Grey CNB, Davies AR. (2021). Iechyd unigolion sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd yng Nghymru, yn ystod y pandemig COVID-19. Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru.

[17] Grey CNB a Woodfine L. (2019). Lleisiau'r rhai sydd â phrofiadau personol o ddigartrefedd a niwed yng Nghymru: llywio gwaith atal ac ymateb. Caerdydd: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

- Roedd gwaith maes a gynhaliwyd fel rhan o'r Monitor Digartrefedd: Cymru 2021 yn disgrifio cynnydd cadarnhaol mewn gwaith amlasiantaethol â chydweithwyr ym maes iechyd drwy gydol pandemig COVID-19.[18] Roedd y cydweithio hwn rhwng gwasanaethau iechyd a digartrefedd yn arwain at well canlyniadau i bobl â phrofiad o ddigartrefedd a oedd yn ceisio cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl neu roi'r gorau i ddefnyddio sylweddau. Mynegodd rhai o'r prif rai a ddarparodd wybodaeth i'r monitor siom bod y cysylltiadau a ffurfiwyd yn ystod y pandemig yn dechrau mynd yn ôl i 'fusnes fel arfer'.
- Roedd adroddiad *Health Matters* Cymorth Cymru yn nodi mai dim ond i 65% o'r rhai a gymerodd ran yn eu hymchwil yr oedd staff wedi gofyn pan oeddent yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty a oedd ganddynt rywle addas i fynd, ac roedd 11% ohonynt wedi cael eu rhyddhau i'r stryd.
- Ym mis Gorffennaf 2021, cyhoeddodd Sefydliad Tai Siartredig Cymru ei ymchwil *From hospital to home; planning the discharge journey.*[19] Roedd yr ymchwil hwn yn cyfeirio at y posibilrwydd y gallai atgyfeirio buan gan staff iechyd fod o gymorth mewn achosion lle mae claf yn mynd i gael ei ryddhau o'r ysbyty. Roedd yr adroddiad yn cydnabod y gall anawsterau godi wrth geisio canfod statws tai cleifion mewn rhai achosion ac y gallai achosion eraill fod yn gymhleth gan fod anghenion llety cleifion yn gallu newid yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty. Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion, gan gynnwys awgrymu y dylai byrddau iechyd adolygu asesiadau a wnaethpwyd wrth ystyried rhyddhau cleifion yn ogystal â'r angen i Fyrddau Cynllunio Rhanbarthol gymryd yr awenau wrth sefydlu dull amlasiantaethol o gynllunio ar gyfer rhyddhau.
- Mae astudiaethau hefyd yn dangos bod prinder llety i ddiwallu anghenion iechyd amrywiol hefyd yn gwneud materion yn ymwneud â salwch a digartrefedd yn waeth.

## Argymhellion posibl

**Sylwer bod argymhellion perthnasol eraill sy'n gysylltiedig â'r adran hon wedi'u gwneud dan y "dyletswyddau sector cyhoeddus ehangach."**

***Cynllunio ar gyfer rhyddhau***

*1. Dylai Llywodraeth Cymru geisio sicrhau bod gwaith cynllunio ar gyfer rhyddhau yn ystyried digartrefedd drwy:*

*1a. Nodi y dylai asesiadau rhyddhau gynnwys ystyriaeth o anghenion tai cleifion.*

***A/Neu***

*1b. Nodi ei bod yn ofynnol i Fyrddau Cynllunio Rhanbarthol arwain ar ddull amlasiantaethol o gynllunio ar gyfer rhyddhau.*

*2a. Ni ellir rhyddhau unigolyn sy'n wynebu risg o ddigartrefedd o'r ysbyty nes bydd dyletswydd statudol gan yr awdurdod lleol wedi'i sicrhau;*

***Neu***

*2b. Ni ellir rhyddhau unigolyn sy'n wynebu risg o ddigartrefedd o'r ysbyty nes bydd atgyfeiriad at opsiynau tai (ac at y gwasanaethau cymdeithasol lle bo'n briodol) wedi'i wneud.*

***A/Neu***

[18] Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Young, G., Watts, B. a Wood, J. (2021) Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2021. t.35
[19] Gweler [from-hospital-to-home-final.pdf (cih.org)]

*2c. Ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu cymorth i unrhyw un sy'n cael ei ryddhau o'r ysbyty yn ystod y chwe mis nesaf ac yr ystyrir ei fod yn wynebu bygythiad o ddigartrefedd.*

***Cydlynu lle mae anghenion niferus a chymhleth***

*3. Lle mae gan unigolyn anghenion niferus a chymhleth, sy'n galw am fewnbwn gan ddau wasanaeth cyhoeddus neu fwy, dylai Deddf Tai Cymru nodi bod angen dull gweithredu sy'n seiliedig ar gydlynu achos. Dylai'r dull gweithredu gynnwys:*

- *Nodi gweithiwr proffesiynol i arwain y gwaith o gysylltu â'r unigolyn a chydlynu'r gwaith o ddarparu gwasanaeth*
- *Dull o oruchwylio'r gwaith o gydlynu'r achos er mwyn canfod a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau wrth ddarparu gwasanaeth i unigolion o'r fath yn ogystal â rheoli'r risg a'i hatal rhag mynd yn waeth.*

*4. Lle mae'r anghenion yn fwy cymhleth, i'r graddau na ellir cefnogi'r unigolion mewn gwasanaethau tai prif ffrwd, hyd yn oed â chymorth ychwanegol, dylai'r prif gyfrifoldeb am ddiwallu'r anghenion hynny sy'n ymwneud â chymorth llety fod yn nwylo gwasanaethau iechyd a/neu ofal cymdeithasol.*

***Dulliau eraill o wella cydweithrediad â gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol***

*5. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellid gwella cysondeb rhwng asesiadau iechyd, tai a gofal cymdeithasol.*

*6. Bod cynlluniau gofal a chymorth a ddarperir dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ceisio diwallu anghenion tai, fel sy'n berthnasol.*

*7. Ei bod yn ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol lenwi swyddi ym maes tai a digartrefedd.*

*8. Dylai cynlluniau tai a digartrefedd strategol gynnwys datganiad clir gan bartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol, yn amlinellu eu cyfraniad i atal digartrefedd.*

*9. Bod Llywodraeth Cymru yn ceisio annog efelychu ymarfer da lle mae gwasanaethau digartrefedd a thai yn cael mynediad uniongyrchol at weithwyr proffesiynol allweddol fel therapyddion galwedigaethol, neu wasanaethau allweddol yn rhannu'r un safleoedd. Gallai hyn gynnwys ystyried ffrydiau cyllido.*

*10. Bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu canllawiau/ ceisio cymell byrddau iechyd i wella'r modd y darperir gwasanaethau, gan gynnwys lleoli gwasanaethau ar yr un safle a gwasanaethau ar ymweliad ar gyfer poblogaethau digartrefedd.*

*11. Bod Llywodraeth Cymru yn annog gwell dulliau casglu data ar sefyllfaoedd tai cleifion mewn ysbytai.*

*12. Bod Llywodraeth Cymru yn nodi bod angen arweinydd digartrefedd dynodedig ym mhob bwrdd iechyd i helpu i arwain datblygiadau i gefnogi cleifion digartref ac annog rhannu gwybodaeth briodol rhwng asiantaethau er mwyn cefnogi cleifion digartref yn y ffordd orau posibl.*

*13. Bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio Fframwaith Cynllunio y GIG i annog cydweithio ag awdurdodau tai lleol.*

# b. Pobl anabl

## Trosolwg byr o'r ddeddfwriaeth bresennol

Mae **Deddf Tai (Cymru) 2014** yn cynnwys y darpariaethau a ganlyn:

**Angen blaenoriaethol:** Mae person sy'n 'hyglwyf o ganlyniad i henaint, salwch neu anfantais feddyliol, anabledd corfforol neu reswm arbennig arall' yn cael ei gategoreiddio fel un sydd ag angen blaenoriaethol.

**Adran 57(3):** Wrth ystyried a yw amgylchiadau ffisegol eiddo yn rhesymol ar gyfer ceisydd rhaid ystyried anghenion arbennig, yn enwedig yn achos pobl sydd ag anabledd corfforol.

**Adran 65:** Mae'r enghreifftiau o gamau rhesymol a roddir er mwyn helpu i sicrhau llety yn cynnwys:
- gweithio mewn partneriaeth ag iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn datblygu cynllun cyfannol i atal digartrefedd ceisydd, a allai gael ei integreiddio mewn cynllun gofal a chymorth statudol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- edrych ar gyllid i gefnogi tai neu addasiadau.

Mae Rhan 1 o **Orchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015** yn nodi bod 'materion i'w hystyried wrth benderfynu a yw llety yn addas ar gyfer personau sydd mewn angen blaenoriaethol neu y gallent fod mewn angen o'r fath'. Mae'r rhai sy'n berthnasol i bobl anabl fel a ganlyn:
- anghenion iechyd penodol y person;
- agosrwydd a hygyrchedd cymorth teuluol;
- unrhyw anabledd sydd gan y person;
- agosrwydd a hygyrchedd cyfleusterau meddygol, a gwasanaethau cymorth eraill sydd ar hyn o bryd yn cael eu defnyddio gan y person neu'n cael eu darparu iddo; ac sy'n hanfodol er llesiant y person.

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn cynnwys dyletswydd i ddod o hyd i lety a chefnogi unigolyn sy'n sâl, yn anabl neu sydd ag anghenion iechyd meddwl sy'n disgyn ar ysgwyddau'r gwasanaethau cymdeithasol.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 hefyd yn nodi'r dyletswyddau sydd ar awdurdodau lleol, yn ymwneud yn benodol â gwasanaethau cymorth i bobl anabl, ac ynglŷn â'r dewis a'r rheolaeth y dylai pobl anabl fod yn gallu ei arfer dros gefnogaeth, gan gynnwys ble i fyw a gyda phwy. Mae'r cod ymarfer cysylltiedig yn dweud: 'wrth arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â phobl anabl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr anabl sydd angen cymorth, rhaid i awdurdodau lleol roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.'

## Y prif bwyntiau a drafodwyd gan y Panel

- Bu'r Panel yn ystyried agweddau ymarferol ar y gofyniad cyfreithiol i sicrhau bod data'n cael eu casglu ledled Cymru ar y gyfran o'r bobl â phrofiad personol o ddigartrefedd sy'n ystyried eu hunain yn anabl neu â chyflwr iechyd cronig. Er bod y Panel yn cytuno y byddai hyn yn fuddiol, roedd y gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid yn awgrymu na fyddai'n hawdd ei weithredu.
- Cytunodd aelodau'r Panel i ystyried argymhelliad bod yn rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru gael cofrestr dai hygyrch, a gweithio gyda'r polisi dyraniadau cyffredin.
- Bu aelodau'r Panel yn trafod a ellid ystyried grwpiau ehangach, gan gynnwys pobl anabl, yn yr asesiad o'r farchnad dai leol.

- Bu aelodau'r Panel yn ystyried a fyddai'n bosibl ei gwneud yn ofynnol yn Erthygl 1 o Brotocol 1 Amddiffyn Eiddo i landlordiaid preifat gydsynio i gael addasiadau yn yr eiddo.
- Gallai'r rhai sy'n ystyried eu hunain yn anabl neu â chyflyrau iechyd cronig eraill hefyd fod yn grŵp sydd wedi'u heithrio gan fod gwahanol awdurdodau lleol yn cynnig mynediad amrywiol at gyfleusterau meddygol. Byddai hyn yn cefnogi byw'n annibynnol ac yn caniatáu i bobl fyw yn agos/teithio'n hawdd i apwyntiadau. Nodwyd y dylai'r Panel fod yn ofalus i beidio ag achosi unrhyw ganlyniadau anfwriadol i awdurdodau lleol mewn prif ddinas â darpariaeth lawn o wasanaethau iechyd.

## Crynodeb o dystiolaeth i gefnogi'r trafodaethau hyn

### Adborth gan randdeiliaid

- Dywedodd rhanddeiliaid fod yr hyn sy'n cael ei ystyried yn gartref hygyrch yn gallu edrych yn wahanol i bob person anabl gan ddibynnu ar eu hanghenion, a bod yn rhaid cael amrywiaeth o gartrefi hygyrch.
- Rhoddwyd enghreifftiau lle'r oedd pobl anabl yn gorfod mynd o un soffa i'r llall gan fod dod o hyd i gartref wedi'i addasu'n briodol yn anodd.
- Eglurwyd bod cael addasiadau i gartrefi rhieni sy'n byw ar wahân ond yn magu plentyn anabl ar y cyd yn gallu bod yn anodd.
- Cyfeiriodd un o'r rhanddeiliaid at enghraifft lle'r oedd person ifanc wedi cael ei roi mewn llety ar gyfer pobl dros 55 oed. Roedd cyrffyw a rheoliadau nad oeddent yn briodol i oedran y person ifanc yn gysylltiedig â'r llety, ac roeddent yn amharu ar ei annibyniaeth.
- Dywedwyd hefyd y dylai'r holl broses o wneud cais am dŷ fod yn canolbwyntio mwy ar yr unigolyn.
- Roedd galw cryf hefyd ar i bob awdurdod lleol ddefnyddio cofrestrau tai hygyrch.
- Yn aml iawn mae ar bobl niwrowahanol angen mwy o amser i brosesu gwybodaeth ac maent yn cael anhawster i siarad drostynt eu hunain a chanfod eu ffordd o amgylch systemau – o safbwynt y system ddigartrefedd ac mewn cysylltiad â thalu biliau a chadw tenantiaeth.
- Dywedwyd bod cyflenwad o dai sy'n diwallu anghenion amrywiol y boblogaeth gyfan yn broblem, â phobl anabl yn aml yn cael eu rhoi mewn lleoliadau amhriodol.
- Teimlid nad yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn cael ei gorfodi'n briodol a'i bod yn cael ei chymhwyso'n anghyson ledled Cymru. Mynegodd y rhanddeiliaid gefnogaeth i fwy o reoleiddio a mwy o gymorth i ddatblygwyr tai ac awdurdodau i ddeall a chymhwyso'r gyfraith.
- Mae angen i systemau cymorth tai fod yn fwy cynhwysol a bodloni anghenion cyfathrebu amrywiol.
- Teimlai'r rhanddeiliaid y dylai pob landlord cymdeithasol cofrestredig ddarparu tîm cyngor ac y dylent gael cyfrifoldebau yn ymwneud â chwblhau asesiadau cyngor a chymorth.
- Teimlai'r rhanddeiliaid y dylid cael mwy o wybodaeth i landlordiaid ynglŷn â sut i gefnogi tenant anabl, y tu hwnt i addasiadau tai.
- Awgrymwyd y dylid defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb mewn prosesau cynllunio.

### Ymchwil

- Yn ei adroddiad ar wasanaethau digartrefedd, cyfeiriodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru at enghreifftiau o wasanaethau yn methu â diwallu anghenion pobl anabl, drwy leoli ceiswyr mewn tai amhriodol a pheidio â diwallu anghenion cyfathrebu ceiswyr.

- Yn 2016, cyfeiriodd adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, *Housing and Disabled People: Wales' Hidden Crisis,*[20] at nifer o faterion yn ymwneud â mynediad at dai i bobl anabl yng Nghymru. Roedd y prif themâu yn cynnwys:
  - Yr angen i adeiladu cartrefi mwy hygyrch ac wedi'u haddasu.
  - Yr angen i wella'r modd y gosodir addasiadau mewn cartrefi.
  - Yr angen am welliannau i gynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol.
  - Cyfateb cartrefi â'r bobl sydd eu hangen.

## Argymhellion posibl

**Sylwer y gallai argymhellion eraill sy'n berthnasol i bobl anabl a digartrefedd ddigwydd mewn adrannau eraill ac mewn cysylltiad â thrafodaethau yn y dyfodol ar reoleiddio a gorfodi.**

## *Asesiad o Angen*

*1.Rhaid i'r asesiad o angen a'r cynllun tai personol gynnwys, dan benawdau anghenion tai a chymorth sydd ei angen er mwyn cadw llety, ystyriaeth o unrhyw anableddau sydd gan y ceisydd neu unrhyw aelodau o'i aelwyd.*

## *Data*

*2. Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gofyniad cyfreithiol i awdurdodau lleol sicrhau bod data'n cael eu coladu ledled Cymru gan nodi cyfran y bobl â phrofiad personol o ddigartrefedd sy'n ystyried eu hunain yn anabl neu â chyflwr iechyd cronig.*

## *Prosesau awdurdodau lleol*

*3a. Dylai fod yn ofynnol dan y gyfraith i bob awdurdod lleol yng Nghymru gadw cofrestr dai hygyrch;*

*3b. Bod Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau statudol i awdurdodau tai lleol er mwyn sicrhau bod y broses geisiadau digartrefedd yn hygyrch.*

*3c. Bod ceiswyr yn cael mynediad at eiriolwr i helpu i ganfod eu ffordd o gwmpas y broses geisiadau digartrefedd.*

*3d. Bod poblogaethau anabl lleol yn cael eu hystyried yn yr asesiad o'r farchnad dai leol;*

*3e. Ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wrth gynllunio tai.*

### *Landlordiaid preifat a chymdeithasol*

*4a. Bod Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau na all landlordiaid ddal caniatâd i wneud addasiadau hygyrchedd i lety yn ôl yn afresymol.*

***Neu***

*4b. Bod Llywodraeth Cymru yn ceisio cynyddu ymwybyddiaeth o rwymedigaethau cyfreithiol dan y Ddeddf Cydraddoldeb mewn cysylltiad ag addasiadau tai.*

---

[20] Gweler housing-and-disabled-people-wales-hidden-crisis.pdf (equalityhumanrights.com)

*4c. Bod Rhentu Doeth Cymru yn cefnogi landlordiaid â gwybodaeth am addasiadau i bobl anabl.*

*4d. Ei bod yn ofynnol i bob landlord cymdeithasol cofrestredig gael timau cyngor.*

# c. Iechyd Meddwl

## Trosolwg byr o'r ddeddfwriaeth bresennol

Mae **Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010**[21] yn cynnwys dyletswydd i asesu'r gwasanaethau tai neu'r gwasanaethau llesiant (os oes rhai) a allai wella iechyd meddwl y person sy'n cael ei asesu neu atal dirywiad.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar breswylfa cleifion iechyd meddwl yn nodi lle nad yw person yn cael ei gadw mwyach dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ei fod yn gymwys ar gyfer gwasanaethau ôl-ofal, gan gynnwys tai. Yn yr achos hwn gwneir yr asesiad dan adran 47 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990.

Dan **Ddeddf Tai (Cymru) 2014**, mae person sy'n 'hyglwyf o ganlyniad i henaint, salwch neu anfantais feddyliol, anabledd corfforol neu reswm arbennig arall' yn cael ei gategoreiddio fel un sydd ag angen blaenoriaethol.

Mae **Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015** yn darparu y dylid ystyried anghenion iechyd ceisydd a mynediad at gymorth wrth benderfynu a yw llety yn addas.

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn rhoi dyletswydd i ddod o hyd lety a chefnogi grwpiau penodol o bobl, gan gynnwys oedolyn sydd ag anghenion iechyd meddwl, ar wasanaethau cymdeithasol.

## Y prif bwyntiau a drafodwyd gan y Panel

- Nodwyd bod angen i dai wedi'u haddasu hefyd ddiwallu anghenion anabledd meddyliol ac anabledd na ellir ei weld. Trafodwyd y byddai safon dai hygyrch yn cael ei chroesawu gan aelodau'r Panel.
- Teimlai aelodau'r Panel fod angen dull gweithredu sy'n seiliedig ar drawma â dealltwriaeth o pam y gallai pobl fod yn defnyddio sylweddau fel math o hunanfeddyginiaeth lle mae cymorth ffurfiol (yn enwedig iechyd meddwl) mor brin.
- Trafodwyd sut y gall awdurdodau lleol wneud asesiadau priodol er mwyn sicrhau bod pobl yn cael mynediad at y llety mwyaf priodol. Mae diffyg diagnosis yn golygu yn aml iawn nad yw pobl yn cyrraedd y trothwy statudol ar gyfer ymyriadau, sy'n gallu gadael pobl mewn sefyllfa agored iawn i niwed pan gânt eu lleoli mewn llety dros dro. Teimlid y dylai'r Panel ystyried argymhellion yn ymwneud â chynyddu cymorth nad yw'n ddibynnol ar diagnosis.

[21] Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 (legislation.gov.uk)

## Crynodeb o dystiolaeth i gefnogi'r trafodaethau hyn

### Adborth gan randdeiliaid

- Roedd llawer o randdeiliaid yn glir o'r farn na ddylai mynediad at gymorth fod yn ddibynnol ar ddiagnosis. Nodwyd bod y broses o gael diagnosis yn hir ac yn drawmatig.
- Nodwyd hefyd bod ansicrwydd ynglŷn â throi allan yn ychwanegu at broblemau iechyd meddwl llawer o unigolion, a bod problemau iechyd meddwl yn gallu digwydd yr un pryd â throi allan.
- Dywedwyd bod hyn yn gallu cynnwys gwahaniaethu heb ei gofnodi gan landlordiaid a gwasanaethau oherwydd problemau neu symptomau iechyd meddwl.
- Dywedodd rhanddeiliaid fod y prawf bwriadoldeb a pholisïau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gallu cael eu camgymhwyso lle nad yw anghenion iechyd meddwl ceiswyr yn cael eu diwallu.
- Awgrymodd Cymdeithasau Tai fod angen mwy o gymorth i helpu'r rhai hynny sydd ag anghenion iechyd meddwl i gael tenantiaeth a'i chadw. Roedd natur gostus y cymorth sydd ei angen yn achosi rhwystr ac yn atal dyrannu lleoedd i geiswyr digartref ag anghenion cymorth iechyd meddwl.
- Dywedodd rhanddeiliaid fod y rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl ynghyd â phroblemau camddefnyddio sylweddau yn aml yn cael anhawster i gael mynediad at gymorth/ yn cael eu taflu yn ôl ac ymlaen rhwng gwasanaethau.
- Nodwyd bod diffyg amrywiaeth o fewn y stoc dai, gan gynnwys darparu tai gwlyb a sych yn broblem fawr. (gweler yr argymhelliad dan yr adran gynllunio).
- Awgrymodd rhanddeiliaid fod y prawf cysylltiad lleol yn achosi anawsterau i rai a oedd yn chwilio am ddechrau newydd er mwyn helpu â'u hiechyd meddwl ac er mwyn dianc rhag atgofion trawmatig. (gweler yr argymhelliad dan yr adran cysylltiad lleol).
- Pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd mynediad at eiriolaeth.
- Awgrymodd rhanddeiliaid y byddai dyletswyddau ehangach i gyfeirio a chydweithredu yn fuddiol er mwyn sicrhau bod anghenion iechyd meddwl yn cael eu cefnogi ac yn galluogi unigolion i gadw tenantiaeth yn y ffordd orau.

### Adborth gan Arbenigwyr drwy Brofiad

- Mae papurau'r Arbenigwyr drwy Brofiad yn dangos nad oes gan bawb ddiagnosis, ac nad oes ar bawb eisiau diagnosis, ond mae problemau iechyd meddwl ac angen blaenoriaethol yn seiliedig ar ddiagnosis neu benderfyniad ynglŷn â difrifoldeb y cyflwr iechyd meddwl, a all effeithio ar y trothwy i gymhwyso.
- Dywedodd yr arbenigwyr drwy brofiad nad yw'r prawf bwriadoldeb presennol yn ystyried yr effaith y gall iechyd meddwl ei gael ar allu unigolyn i gadw tenantiaeth, a bod hynny'n achosi i bobl gael eu dosbarthu'n ddiangen fel rhai sy'n ddigartref yn fwriadol.
- Mae cymorth pontio ar gyfer iechyd meddwl yn anodd iawn oherwydd mae'r ddarpariaeth i oedolion yn wahanol iawn i'r ddarpariaeth i blant. Efallai y bydd angen i wasanaethau cefnogi tenantiaeth lenwi bwlch sy'n cael ei adael gan y pontio.

- Dangosodd ymchwil Homeless Link fod nifer y bobl sy'n profi digartrefedd ac sydd â diagnosis o iechyd meddwl wedi cynyddu o 45% yn 2014 i 82% rhwng 2018 – 2021.[22]
- Yn ei hadolygiad o dystiolaeth yn 2019, *Housing insecurity and mental health in Wales*[23] roedd Canolfan Gydweithredol y DU ar gyfer Tystiolaeth Tai yn nodi'r cysylltiad cryf sydd rhwng sefydlogrwydd tai a lles meddyliol.
- Mae adroddiad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd yn 2022 ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl yn nodi bod Comisiynydd Plant Cymru wedi mynegi pryder ynglŷn â chynnydd mewn gwaith cydgysylltiedig rhwng iechyd meddwl a gwasanaethau cymdeithasol. Awgrymodd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru y dylai gwaith cydgysylltiedig ymestyn y tu hwnt i wasanaethau iechyd i ystyried anghenion ehangach pobl ac adlewyrchu penderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd meddwl. Er enghraifft, roedd yn awgrymu y dylid lleoli gwasanaethau ariannol a chyngor ynglŷn â thai gyda gwasanaethau iechyd meddwl er mwyn helpu i fynd at wraidd trallod yn ogystal ag anghenion iechyd meddwl a lles.[24]
- Gall fod yn anodd cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl. Dywedodd 13% o'r rhai a ymatebodd i ymchwil Health Matters Cymorth Cymru mai eu defnydd o gyffuriau neu alcohol oedd y rheswm pam nad oeddent yn gallu cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd neu iechyd meddwl.[25]
- Roedd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn 2010 yn dod i'r casgliad bod cynllunio strategol i ddiwallu anghenion tai y rhai hynny sydd ag anawsterau iechyd meddwl yn wael. Roedd yn galw am well data ar iechyd meddwl a digartrefedd yng Nghymru.
- Canfu adolygiad o dystiolaeth y Ganolfan Effaith Digartrefedd[26] fod gwasanaethau iechyd meddwl a thai ar y cyd yn cael eu disgrifio fel rhai sy'n well na gwasanaethau gofal iechyd meddwl yn unig.

## Argymhellion posibl

**Sylwer bod argymhellion dan ddyletswyddau sector cyhoeddus ehangach ar y ddyletswydd i gyfeirio a chydweithredu yn berthnasol i'r adran hon.**

*1. Dylid diwygio canllawiau statudol i sicrhau bod asesiadau a chynlluniau allweddol, er enghraifft Cynlluniau Triniaeth Gofal, yn ystyried anghenion tai yn fwy rheolaidd.*

*2a. Bod Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau a hyfforddiant i wasanaethau tai awdurdodau lleol ar ddull gweithredu sy'n seiliedig ar drawma.*

*Neu*

*2b. Ei bod yn ofynnol i awdurdodau tai lleol ddarparu hyfforddiant ar ddulliau gweithredu sy'n seiliedig ar drawma i aelodau newydd o'r staff.*

---

[22] Homeless Link (2022) Unhealthy State of Homelessness 2022: Findings from the Homeless Health Needs Audit
[23] https://housingevidence.ac.uk/wp-content/uploads/2019/03/190327-Housing-insecurity-and-mental-health-in-Wales_final.pdf
[24] https://senedd.cymru/media/wucnttm0/cr-ld15568-w.pdf
[25] Cymorth Cymru (2016) Health Matters: The health needs of homeless people in Wales
[26] https://assets-global.website-files.com/59f07e67422cdf0001904c14/61deb16c421740401955c829_CHI.WWC.EvidenceNotes.MentalHealth.pdf

*3. Bod Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i ystyried sut y gellid gwella cymorth iechyd meddwl i'r rhai hynny sy'n cael mynediad at gymorth tai. Er enghraifft, cydleoli gwasanaethau, cytundeb â phartneriaid yn y GIG neu fynediad at weithwyr iechyd meddwl yn ei thimau tai. Gallai hyn helpu i sicrhau y gellir gofyn am fewnbwn iechyd meddwl hyd yn oed pan nad oes diagnosis.*

*4. Bod awdurdodau tai lleol yn cael eu hannog i gyfeirio at gymorth iechyd meddwl lle tybir y byddai hyn o fudd i denant.*

# d. Defnyddio sylweddau

## Trosolwg byr o'r ddeddfwriaeth bresennol

Nid yw defnyddio sylweddau wedi'i gynnwys yn benodol yn neddfwriaeth angen blaenoriaethol **Deddf Tai (Cymru) 2014** fel rheswm penodol i ystyried bod ceiswyr yn agored i niwed, ond gallai awdurdodau ystyried defnyddio sylweddau fel 'rheswm arbennig' dros fod yn agored i niwed, a chyfeirir yn benodol at gamddefnyddio sylweddau yn y canllawiau.

## Y prif bwyntiau a drafodwyd gan y Panel

- Awgrymwyd y gall landlordiaid cymdeithasol cofrestredig fod yn gyndyn o gymryd risg pan fydd yn fater o leoli pobl â phroblemau defnyddio sylweddau oherwydd y Ddeddf Camddefnyddio Sylweddau. Fodd bynnag, mae gan y Ddeddf hon bolisi clir ar leihau niwed. Dywedwyd bod angen i wasanaethau tai a chyfiawnder troseddol gydweithio i gael hyn yn iawn.
- Dywedwyd nad yw'r prawf bwriadoldeb presennol yn ystyried yr effaith y gall defnyddio sylweddau ei gael ar allu unigolyn i gadw tenantiaeth. Mae hyn yn gyson ag awgrym y Panel i ddileu'r prawf bwriadoldeb.

## Crynodeb o dystiolaeth i gefnogi'r trafodaethau hyn

### Adborth gan randdeiliaid

- Dywedodd llawer o randdeiliaid fod angen darpariaeth amrywiol ar gyfer gwasanaethau 'gwlyb' a 'sych' er mwyn i bobl allu cael mynediad at ddiogelwch heb orfod bodloni amodau neu roi eu siwrnai tuag at adferiad yn y fantol. (gweler yr argymhellion dan yr adran gynllunio).
- Mae diffyg dealltwriaeth hefyd ynglŷn ag achosion defnyddio sylweddau ar draws y system, a galw am gydnabyddiaeth bod nifer o ffactorau allanol a allai achosi i unigolyn ddefnyddio sylweddau.
- Awgrymodd rhanddeiliaid fod angen dull cyfannol o fynd i'r afael â thrawma ym mywydau pobl a hwyluso adferiad.
- Dywedodd rhanddeiliaid fod ar landlordiaid angen mwy o gymorth i ddeall sut i gefnogi tenantiaid â phroblemau camddefnyddio sylweddau.
- Dywedodd rhanddeiliaid fod systemau yn gweithio'n dda lle'r oedd cymorth iechyd meddwl a defnyddio sylweddau yn rhan o wasanaethau cymorth digartrefedd.
- Dywedodd rhanddeiliaid y gall mynediad at wasanaethau cymorth fod yn anodd ag unigolion yn cael eu "bownsio" yn ôl ac ymlaen rhwng gwasanaethau iechyd meddwl a chymorth â sylweddau dan y gamddealltwriaeth fod angen cymorth ag un anhawster cyn y llall.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd gwaith amlasiantaethol.

### Adborth gan Arbenigwyr drwy Brofiad

- Mae adroddiadau'r Arbenigwyr drwy Brofiad wedi amlinellu sut y gall cael problemau â defnyddio sylweddau fod yn rhwystr mawr sy'n atal mynediad at dai diogel ac addas, ac mae gan lawer o ddarparwyr tai reolau ac amodau llym. Roedd teimlad cryf bod angen llety priodol i bobl sydd â phroblemau defnyddio sylweddau.
- Dywedwyd hefyd bod cael eich gorfodi i aros yn yr ardal leol, cael cynnig llety dros dro anaddas lle mae pobl yn defnyddio sylweddau, ac amodau ar gyfer derbyn cymorth iechyd meddwl i gyd yn gallu cael effaith negyddol ar adferiad unigolyn.
- Roedd yr adborth yn awgrymu bod rhai pobl sydd â phrofiad personol wedi teimlo mai eu hunig ddewis yw bod yn ddigartref ar y stryd, yn hytrach na derbyn llety dros dro anaddas, er mwyn cadw eu hunain yn ddiogel a chadw eu siwrnai tuag at adferiad ar y trywydd cywir. (Gweler yr adran cysylltiad lleol ar gyfer yr argymhelliad)
- Mae angen i gymorth defnyddio sylweddau barhau o'r adeg pan mae rhywun mewn llety dros dro neu lety â chymorth i'r adeg y bydd mewn llety sefydlog, ag arweinydd allweddol yn symud ar draws y gwasanaethau gyda'r unigolyn.

### Ymchwil

- Gall defnyddio sylweddau fod yn achos digartrefedd ac yn ganlyniad digartrefedd.[27]
- Mae adolygiadau o'r dystiolaeth sy'n ymwneud ag ymyriadau tai yn awgrymu bod Tai yn Gyntaf ac ymyriadau tai cymorth eraill sy'n ymwneud â defnyddio sylweddau yn cael eu hystyried yn rhai a allai fod yn fuddiol er mwyn cael sefydlogrwydd, sy'n bwysig os lleihau digartrefedd yw'r nod.[28]
- Gall problemau iechyd meddwl a defnyddio sylweddau ddigwydd yr un pryd yn aml, gan achosi rhwystrau penodol yn ymwneud â digartrefedd. O'r rhai a ymatebodd i ymchwil Homeless Link yn 2022, dywedodd 45% o'r ymatebwyr eu bod yn hunanfeddyginiaethu â chyffuriau neu alcohol i'w helpu i ymdopi â'u hiechyd meddwl.[29]
- Yn aml iawn mae pobl sydd ag anghenion amrywiol sy'n digwydd yr un pryd yn methu â chael triniaeth a chefnogaeth oherwydd bod anghytundebau rhwng asiantaethau ynglŷn ag arweiniad yn golygu ei bod yn anodd dod o hyd i wasanaeth a fydd yn trin y ddwy broblem yr un pryd.[30]

## Argymhellion posibl

**Sylwer bod argymhellion mewn adrannau eraill, er enghraifft y ddyletswydd i gyfeirio, dyletswydd i gefnogi unigolyn i gadw tenantiaeth a dyletswyddau cynllunio yn berthnasol i'r adran hon, ond yn cael eu hamlinellu mewn mannau eraill.**

*1. Bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd i sicrhau bod cyngor tai a chymorth eiriolaeth ar gael i geiswyr, gan gynnwys y rhai sydd ag anawsterau camddefnyddio sylweddau.*

---

[27] Song J, Moreno-Stokoe C, Grey CNB, Davies AR. (2021). Iechyd unigolion sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd yng Nghymru, yn ystod pandemig COVID-19. Caerdydd: Iechyd Cyhoeddus Cymru.
[28] https://jech.bmj.com/content/73/5/379
[29] Homeless Link (2022) Unhealthy State of Homelessness 2022: Findings from the Homeless Health Needs Audit
[30] Homeless Link (2022) Unhealthy State of Homelessness 2022: Findings from the Homeless Health Needs Audit

*2. Bod awdurdodau tai lleol yn sicrhau bod pobl sy'n cyflwyno eu hunain fel rhai sydd eisiau gwella ar ôl bod yn defnyddio sylweddau yn cael mynediad at y llety priodol i gefnogi'r adsefydlu hwn (hyd yn oed os yw'r ddarpariaeth hon y tu allan i ardal yr awdurdod)*

*3. Bod canllawiau yn darparu lle bo gan geisydd anhawster yn ymwneud â defnyddio sylweddau, caiff cymorth i'r ceisydd ei nodi yn ei gynllun iechyd personol.*

*4. Bod Llywodraeth Cymru yn annog gwasanaethau tai lleol i ystyried sut mae eu strwythurau yn cynnwys darpariaeth ar gyfer defnyddio sylweddau a chymorth iechyd meddwl.*

*5. Bod Llywodraeth Cymru yn annog partneriaid iechyd i sicrhau mwy o gydweithrediad rhwng gwasanaethau iechyd meddwl a chymorth defnyddio sylweddau.*

# 3. Plant a theuluoedd

## Trosolwg byr o'r ddeddfwriaeth bresennol

Mae **Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) (2011)** yn nodi ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gan gynnwys yr hawl i safon byw ddigonol, wrth ddatblygu neu adolygu deddfwriaeth a pholisi.

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014)** yn rhoi dyletswydd ar wasanaethau cymdeithasol i letya a chefnogi plant dan 18 oed sy'n ddigartref neu ar fin bod yn ddigartref. Mae'r prif adrannau yn cynnwys:

- Mae **adran 15, (2) (b)** yn nodi ei bod yn ofynnol i'r awdurdod lleol hybu'r syniad bod plant yn cael eu magu gan eu teuluoedd, lle mae hyn yn unol â lles y plentyn.
- Mae **adran 75** yn nodi bod yn rhaid i awdurdod lleol gymryd camau i sicrhau llety sy'n diwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal yn ardal yr awdurdod.
- Mae **adran 76** yn nodi bod yn rhaid i awdurdod lleol ddarparu llety i unrhyw blentyn yn ei ardal sydd wedi cyrraedd 16 oed ac sy'n debygol o ddioddef effaith ddifrifol ar ei les os nad yw'r awdurdod yn dod o hyd i lety iddo.
- Mae **adran 81** yn amlinellu bod yn rhaid i'r awdurdod lleol wneud trefniadau i alluogi plentyn sy'n derbyn gofal i fyw gyda rhiant cyhyd ag y bo hynny'n gyson â lles y plentyn ac yn rhesymol ymarferol. Os nad yw'r awdurdod lleol yn gallu gwneud y trefniadau hyn, rhaid iddo leoli'r plentyn yn y lleoliad mwyaf priodol sydd ar gael.

Mae **adran 96 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014** yn amlinellu bod yn rhaid i awdurdod lleol sicrhau, lle mae'n gwneud penderfyniad nad oes gan geisydd â phlant dibynnol hawl i gael ei ailgartrefu, bod ei adran dai yn darparu cyngor a chymorth i'r adran gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r **Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd (2016)** yn amlinellu y dylid cynnig llety â chymorth i unig rieni dan 18.

Mae **Gorchymyn Addasrwydd (Cymru) 2015** yn amlinellu rhagor o ofynion addasrwydd ar gyfer aelwydydd angen blaenoriaethol mewn cysylltiad â llety Gwely a Brecwast dros dro, gan gynnwys man y lleoliad, terfynau amser statudol ar gyfer aros yn y llety hwn ac amodau ar gyfer cynnig llety amgen. Mae'n nodi y

dylai'r llety amgen fod yn hunangynhwysol os yw'r aelwyd yn cynnwys plant dibynnol (neu fenyw feichiog) ac y dylid darparu cymorth i geisydd 16 neu 17 oed.

## Y prif bwyntiau a drafodwyd gan y Panel

- Teimlid y gallai dyletswydd i hysbysu gwasanaethau tai a digartrefedd ynglŷn ag ôl-ddyledion rhent fod yn fuddiol er mwyn osgoi achosion o droi allan. Gallai hyn fod o fudd i deuluoedd sy'n wynebu risg o ddigartrefedd (gweler yr adran ar ddyletswyddau cyhoeddus ehangach a'r ddyletswydd i gyfeirio ar gyfer argymhelliad).
- Gofynnwyd a fyddai'n bosibl nodi'r mathau o gartrefi cymdeithasol sydd i'w hadeiladu ym mhob awdurdod lleol ar sail anghenion y boblogaeth, yn enwedig pobl ifanc a theuluoedd (gweler yr adran ar gynllunio ar gyfer argymhellion).
- Mynegodd aelodau'r Panel gefnogaeth i waharddiad ar lety dros dro anaddas ar gyfer y rhai dan 25 oed.
- Roedd gan aelodau'r Panel ddiddordeb yn y rôl y gall addysg ei chwarae wrth helpu i adnabod plant sy'n ddigartref neu'n wynebu risg o ddigartrefedd a'u cefnogi wedyn. Awgrymwyd y gellid cael dyletswydd i gyfeirio neu ddyletswydd debyg i ddyletswydd "gofyn a gweithredu" trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. (Gweler yr adran ar ddyletswyddau ehangach ar gyfer argymhelliad).
- Roedd gan rai aelodau o'r Panel ddiddordeb yn y syniad y gallai cwricwlwm ysgolion helpu i atal digartrefedd yn y dyfodol. (Gweler yr argymhelliad dan yr adran ar ddigartrefedd ieuenctid).
- Holodd y Panel a ddylid cael rhagor o safonau sylfaenol mewn cysylltiad â llety dros dro a gorchmynion addasrwydd, o ran safonau sydd eu hangen ar gyfer lletya teuluoedd.

## Crynodeb o dystiolaeth i gefnogi'r trafodaethau hyn

### Adborth gan randdeiliaid

- Tynnwyd sylw at natur anaddas llety dros dro i deuluoedd. Cyfeiriwyd yn benodol at leoliad lleoliadau a'r anhawster a'r effaith ariannol bosibl yr oedd hyn yn ei olygu i deuluoedd wrth geisio cael mynediad at ysgolion, meddygon a deintyddion. Tynnwyd sylw hefyd at effaith diffyg wi-fi, gofod a chyfleusterau golchi dillad mewn cysylltiad â gallu plentyn i wneud ei waith cartref, ymdeimlad o breifatrwydd a hunan-dyb. Tynnwyd sylw at anhawster lleoliad hefyd lle mae rhieni wedi gwahanu.
- Nodwyd bod lleoliadau llety dros dro anaddas yn gallu ei gwneud hi'n anodd i blant sy'n derbyn gofal yn bennaf gan warcheidwad arall ymweld â rhiant, a bod hynny yn ei dro yn gallu cael effaith sylweddol ar les meddyliol y rhiant.
- Mynegwyd pryder ynglŷn â rhieni nad ydynt yn gallu manteisio ar arian cyhoeddus. Mae achosion lle mae plant wedi cael eu cymryd oddi ar rieni sy'n gwneud cais am gymorth digartrefedd er mwyn rhoi to dros eu pennau. Mae hyn yn achosi i bobl eraill yn y gymuned beidio â gofyn am gymorth tai.
- Roedd y rhanddeiliaid yn galw ar addysg i chwarae mwy o ran yn y broses o adnabod plant sy'n wynebu risg o ddigartrefedd a chyfeirio'r achosion hyn at opsiynau tai.
- Awgrymodd rhanddeiliaid y gellid cael rôl i'r cwricwlwm er mwyn helpu i atal digartrefedd yn y dyfodol.

### Adborth gan Arbenigwyr drwy Brofiad

- Dywedwyd bod teuluoedd, yn enwedig teuluoedd mewn llety dros dro yn rhannu eu hanhawster i gadw rhwydweithiau addysg a rhwydweithiau cymdeithasol plant pan maent yn cael eu lleoli mewn awdurdod lleol gwahanol.
- Dywedwyd bod teuluoedd mewn llety dros dro yn aml yn rhannu un ystafell ac mai mynediad cyfyngedig sydd ganddynt at gyfleusterau golchi a choginio a Wi-Fi. Roedd hyn yn golygu ei bod yn anodd i blant wneud eu gwaith cartref a chadw cyfeillgarwch, ac roedd rhieni'n cael anhawster â chost gorfod bwyta allan o hyd, defnyddio *launderettes* a chludiant cyhoeddus.

### Ymchwil

- Y flwyddyn ddiwethaf lle mae data llawn wedi'u casglu ar gyfer ffigurau statudol digartrefedd teuluoedd yng Nghymru yw 2018 – 19. Yn ystod y flwyddyn, roedd tua 44% o'r holl aelwydydd a oedd yn wynebu bygythiad o ddigartrefedd yn deuluoedd â phlant dibynnol.
- Roedd y rhan fwyaf o'r aelwydydd hyn yn unig rieni â phlant dibynnol ac aelwydydd un person, sef 84% o'r aelwydydd cymwys.[31] Unig rieni sydd â'r gyfradd dlodi uchaf ymhlith oedolion oed gweithio yn y DU, â 43% yn byw mewn tlodi.[32]
- Roedd yr ystadegau misol diweddaraf ar gyfer darparu llety i bobl ddigartref yn dangos bod 30% (2,696) o'r 9,043 o unigolion a oedd mewn llety dros dro yn blant dibynnol dan 16 oed.[33]
- Mae tystiolaeth yn dangos bod digartrefedd yn achosi niwed i unigolion a theuluoedd, ac i gymdeithas yn gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys niwed i iechyd meddwl, iechyd corfforol, perthnasoedd a lles, a mwy o angen am gymorth gwasanaethau cyhoeddus.[34]
- Mae Centrepoint yn nodi bod dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y teulu cyfan yn nodwedd bwysig er mwyn atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc.[35]

## Argymhellion posibl

*1. Bod adolygiad amlasiantaethol yn ofynnol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n cyflwyno eu hunain fel rhai sy'n ddigartref/yn wynebu risg o ddigartrefedd;*

*2. Y dylid cyflwyno canllawiau i awdurdodau lleol sy'n amlinellu y dylid cynnig llety â chymorth i unig rieni dan 18 mewn statud;*

*3. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod meddyginiaeth i deuluoedd ar gael fel rhan o'u darpariaeth i atal digartrefedd.*

[31] https://www.gov.wales/wellbeing-wales-2022-children-and-young-peoples-wellbeing-wales-cohesive-communities-html
[32] Joseph Roundtree Foundation (2020) *UK Poverty 2019/20: a comprehensive analysis of poverty trends and figures*.
[33] https://www.llyw.cymru/darpariaeth-llety-digartrefedd-chysgu-allan-tachwedd-2022
[34] Gweler er enghraifft Homeless Link, 'Impact of homelessness' darllenwyd 20 Ionawr 2020 ar https://www.homeless.org.uk/facts/understanding-homelessness/impact-of-homelessness
[35] prevention-what-works_full-report.pdf (centrepoint.org.uk)

# 4. Digartrefedd ymysg pobl ifanc (gan gynnwys rhai sy'n gadael gofal)

## Trosolwg byr o'r ddeddfwriaeth bresennol

Dan **Ddeddf Tai Cymru,** ar hyn o bryd mae pobl ifanc 18-20 oed sy'n wynebu risg benodol o gamfanteisio rhywiol neu ariannol yn cael eu hystyried yn rhai sydd ag angen blaenoriaethol am gymorth tai, ynghyd â phobl ifanc 18-20 oed a oedd yn derbyn gofal neu'n cael eu maethu ar unrhyw adeg tra oeddent dan 18 oed.

**Pobl ifanc sy'n gadael gofal**

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn cyfuno cyfraith gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys dyletswyddau awdurdodau lleol Cymru tuag at blant sydd yn eu gofal. Mae Rhan 6 o'r Cod Ymarfer[36] cysylltiedig yn nodi bod yn rhaid i gynllun llwybr person ifanc sy'n gadael gofal roi sylw i'w iechyd a'i ddatblygiad, gan gynnwys ei iechyd corfforol, emosiynol a meddyliol. Os oes gan berson ifanc anabl anghenion y gellir eu diwallu drwy gynllun lleoliadau oedolion, mae'r Cod Ymarfer yn nodi y gallai fod yn briodol i'r gofalwr maeth blaenorol ddod yn ofalwr lleoliad oedolion y person hwnnw ar ôl iddo ddod yn 18 oed, os yw'n fodlon parhau mewn rôl ofalu.

Mae Rheoliadau Gadawyr Gofal (Cymru) 2015 yn amlinellu dyletswyddau amrywiol sydd gan awdurdodau lleol tuag at bobl ifanc mewn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae'r dyletswyddau'n amrywio gan ddibynnu ar statws y sawl sy'n gadael gofal (sy'n cael ei grwpio i bedwar categori) ond y gofynion cyffredinol yw y dylai awdurdodau lleol:

- gynllunio gyda phobl ifanc a'u cynnwys mewn penderfyniadau
- peidio â symud pobl ifanc sydd wedi setlo
- asesu anghenion pobl ifanc a'u paratoi ar gyfer unrhyw symud
- sicrhau bod y llety yn diwallu unrhyw anghenion sy'n gysylltiedig â nam
- ystyried anghenion addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- lle bo'n ymarferol, cynnig dewis o lety
- sefydlu pecyn cymorth i fynd gyda'r llety
- cael cynllun ariannol clir ar gyfer y llety a chynllun wrth gefn.

Mae'r cynllun 'Pan Fydda i'n Barod'[37] yn galluogi pobl ifanc i aros gyda'u gofalwyr maeth ar ôl iddynt gael eu pen-blwydd yn 18 oed os oes cytundeb rhwng gofalwr maeth a'r person ifanc.

**Pobl ifanc sy'n gadael sefydliadau diogel**

Mae **adran 52** o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn nodi bod yn rhaid i strategaethau digartrefedd awdurdodau lleol gynnwys darpariaeth yn ymwneud â chamau sydd wedi'u cynllunio mewn cysylltiad â phobl sy'n gadael llety cadw ieuenctid.

Mae'r 'Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel' yn ceisio gwella gwasanaethau a gynlluniwyd er mwyn diwallu anghenion tai pobl sy'n

---

[36] rhan-6-cod-ymarfer-plant-yn-derbyn-gofal-a-phlant-syn-cael-eu-lletya.pdf (llyw.cymru)

[37] Canllawiau Llywodraeth Cymru (2016) Canllaw Arfer Da 'Pan Fydda i'n Barod'

gadael sefydliadau diogel. Mae gan y Tîm Troseddau Ieuenctid gyfrifoldeb i helpu i ddarparu llety addas pan fydd unigolion yn cael eu rhyddhau drwy gydweithio â Gwasanaethau Plant a/neu'r Opsiynau Tai yn yr awdurdod lleol perthnasol.

**Llety dros dro i deuluoedd a phobl ifanc**

Yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol ar ddarparu llety i bobl ifanc 16 ac 17 oed a allai fod yn ddigartref. Mae'r canllawiau statudol yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud pob ymdrech i osgoi defnyddio llety a brecwast ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed.

Mae **Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015** yn nodi rhagor o ofynion addasrwydd ar gyfer aelwydydd ag angen blaenoriaethol mewn cysylltiad â llety gwely a brecwast a llety a rennir. Mae'r Gorchymyn yn nodi bod yn rhaid i lety dros dro:

- fod yn hunangynhaliol os yw'r aelwyd yn cynnwys plant dibynnol (neu fenyw feichiog)
- darparu cymorth os yw ar gyfer ceisydd 16 neu 17 oed
- bodloni'r safon uwch os yw'n llety a rennir.

## Y prif bwyntiau a drafodwyd gan y Panel

- Awgrymodd rhai aelodau o'r Panel ddyletswydd i beidio â rhyddhau i ddigartrefedd o ofal cymdeithasol neu sefydliadau diogel.
- Dywedwyd bod llawer o bobl ifanc, nid yn unig yn pontio rhwng systemau tai, ond hefyd, er enghraifft o wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed i wasanaethau iechyd meddwl oedolion lle nad yw'r un mynediad at gymorth ar gael.
- Dywedwyd bod fforddiadwyedd llety â chymorth yn rhwystr mawr, yn enwedig gan nad oes gan bobl ifanc yn aml lawer o ragolygon ar gyfer gwaith.
- Ystyriwyd a ddylid cael dyletswydd i ddarparu eiriolwr i unrhyw berson ifanc sy'n gwneud cais am gymorth digartrefedd. Teimlid y dylai'r eiriolwr hwn fod yn annibynnol.
- Cydnabuwyd manteision fflatiau hyfforddi a rennir i bobl ifanc. Mae'r fflatiau hyn a rennir wedi'u cynllunio ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymorth isel sydd eisiau rhoi cynnig ar fyw'n annibynnol, ond nid ydynt yn fuddiol os nad oes cymorth priodol ar gael.
- Roedd aelodau'r Panel yn awyddus i ystyried manteision ac anfanteision galluogi pobl ifanc 16 ac 17 oed i gael eu tenantiaeth eu hunain.
- Gofynnwyd a fyddai'n bosibl nodi pa fath o gartrefi cymdeithasol ddylai gael eu hadeiladu ym mhob awdurdod lleol ar sail anghenion y boblogaeth, yn enwedig pobl ifanc. (Gweler yr argymhellion dan yr adran ar gynllunio).
- Roedd y Panel yn cefnogi'r syniad o wahardd llety dros dro anaddas i'r rhai dan 25 oed.
- Roedd y rhan fwyaf o'r Panel yn cefnogi'r syniad na ddylai cysylltiad lleol fod yn gymwys i bobl ifanc 16-25 oed (gweler yr adran ar gysylltiad lleol ar gyfer yr argymhelliad).

## Crynodeb o dystiolaeth i gefnogi'r trafodaethau hyn

### Rhanddeiliaid

Cododd rhanddeiliaid y pwyntiau a ganlyn yn ymwneud â digartrefedd ieuenctid:

- Nid yw'r system yn seiliedig ar drawma ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal.
- Galw am fwy o gymorth i rai sy'n gadael gofal – er enghraifft awdurdodau lleol yn gweithredu fel gwarantwyr i'r rhai sydd â phrofiad o fod mewn gofal.
- Galw am ddyletswydd i dimau opsiynau tai ofyn a oes gan rywun brofiad o fod mewn gofal, ac i brofiad o fod mewn gofal gael ei ystyried yn nodwedd warchodedig â chymorth gydol oes ynghlwm wrtho i helpu i liniaru'r risg uwch o ddigartrefedd.
- Mynegwyd pryder ei bod yn ofynnol i ofalwyr maeth pobl ifanc sy'n cyrraedd 18 oed, ar hyn o bryd, ddod yn bobl sy'n gosod ystafell yn eu cartrefi os yw'r person ifanc yn dal i fyw gyda nhw. Nid yw hyn o gymorth ac mae'n golygu bod pobl ifanc yn symud allan o gartrefi maeth yn gynt nag y byddent wedi gwneud fel arall.
- Mynegwyd pryder, er gwaethaf canllawiau ar gysylltiad lleol, bod cymorth tai wedi'i wrthod i rai sy'n gadael gofal mewn ardaloedd lle maent wedi cael eu lleoli yn y gorffennol gyda gofalwyr maeth. (Gweler yr adran cysylltiad lleol ar gyfer yr argymhellion).
- Teimlai'r rhanddeiliaid nad oes digon o eglurder yn aml a yw cymorth yn gyfrifoldeb creiddiol i wasanaethau cymdeithasol ynteu opsiynau tai. Yn ôl y gyfraith mae'r prif gyfrifoldeb am ddod o hyd i gartref i adawyr gofal a phobl ifanc 16 ac 17 oed sy'n ddigartref ar ysgwyddau gwasanaethau cymdeithasol, a dylai gwasanaethau digartrefedd a gwasanaethau cymdeithasol weithio gyda'i gilydd i sicrhau llety addas. Ond nid yw mor glir sut y dylid gweithredu hyn.

### Adborth gan Arbenigwyr drwy Brofiad

- Dywedodd y bobl ifanc nad oedd ganddynt lawer iawn o opsiynau o ran llety oherwydd y cyfraddau ystafell a rennir ar gyfer pobl dan 35 oed. Roedd hyn yn golygu eu bod yn aml yn cael eu lleoli mewn llety dros dro a rennir sy'n anaddas ac weithiau'n anniogel. Lle'r oedd pobl ifanc yn rhannu profiadau cadarnhaol, roedd hyn mewn llety â chymorth arbenigol i bobl ifanc.
- Cyfeiriodd pobl ifanc a oedd yn gadael gofal at y bwlch rhwng gwasanaethau tai a gwasanaethau cymdeithasol. Dywedodd rhai pobl ifanc eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu 'bownsio rhwng gwasanaethau,' tra oedd eraill wedi syrthio allan o'r system yn gyfan gwbl ac wedi profi digartrefedd ar y stryd.
- Cyfeiriodd arbenigwyr drwy brofiad at anawsterau wrth geisio canfod eu ffordd o gwmpas y system.
- Roedd pobl ifanc 16-17 oed yn cael eu lleoli mewn lloches nos er gwaethaf deddfwriaeth i'r gwrthwyneb.
- Roedd y system ei hun yn cael ei beirniadu gan bobl ifanc fel un anodd iddynt ganfod eu ffordd o'i chwmpas, ac roedd y rhai a oedd wedi cael profiadau mwy cadarnhaol yn priodoli hyn i'r ffaith eu bod wedi cael help gan gyrff eraill yr oeddent yn ymddiried ynddynt, fel gwasanaethau ieuenctid neu elusennau pobl ifanc.
- Nodwyd bod prinder llety i symud ymlaen iddo ar gyfer y grŵp hwn.
- Nodwyd bod cysylltiad lleol yn rhwystr, yn enwedig i bobl ifanc LHDTC+ a oedd yn aml yn dianc rhag camdriniaeth neu berthnasoedd anodd â'u teulu o ganlyniad i ddod allan.
- Nodwyd bod angen cymorth cynnar.

### Ymchwil

- Mae pobl ifanc sydd hefyd â phrofiad o fod mewn gofal yn fwy tebygol o brofi digartrefedd na'u cymheiriaid. Mae ymchwil wedi dangos bod un o bob tri (33%) pherson ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi dod yn ddigartref yn ystod y ddwy flynedd gyntaf ar ôl gadael gofal.[38]

[38] https://www.stepbystep.org.uk/news/who-cares-the-link-between-leaving-care-and-homelessness/

- Roedd y bobl ifanc a gymerodd ran yn astudiaeth Dileu Digartrefedd Ieuenctid Cymru, '*Don't let me fall through the cracks*', yn disgrifio troi'n 18 oed fel pwynt pan oedd pethau'n dirywio.
- Canfu ymchwil Shelter Cymru[39] i bobl ifanc a oedd yn cael eu troi allan fod y newid o ofal i lety â chymorth, ac yna o lety â chymorth i fyw'n annibynnol, yn digwydd yn rhy sydyn i lawer o bobl ifanc. Teimlid yn aml iawn bod cymorth yn cael ei leihau'n sydyn yn hytrach nag yn raddol.
- Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi cyhoeddi adroddiad[40] yn ddiweddar yn edrych ar ddiwygiadau radical ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Roedd yr adroddiad, yn rhannol, yn amlinellu effaith profiadau o fod mewn gofal ar brofiad pobl o ddigartrefedd. Roedd yn nodi y bydd hyd at 1 o bob 4 plentyn sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ddigartref erbyn y bydd yn 18 oed. Mae'r argymhellion yn ymwneud â thai a oedd yn yr adroddiad yn cynnwys y canlynol:

  > *Fel rhan o ddiwygiadau ymbarél i rianta corfforaethol dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i wneud y canlynol;*
  > - *Diwygio Deddf Tai 1996 i sicrhau bod pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael blaenoriaeth wrth ddyrannu tai.*
  > - *Diwygio Deddf Tai 1996 i ddatgan y dylid diystyru 'cysylltiad lleol' ar gyfer pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal.*
  > - *Diwygio Deddf Tai (Cymru) 2014 i sicrhau bod pobl dros 21 oed sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cadw statws "angen blaenoriaethol" pan fyddant yn ddigartref.*
  > - *Diwygio Deddf Tai (Cymru) 2014 fel na ellir cyfeirio pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal sy'n wynebu digartrefedd at awdurdod lleol arall ar sail 'cysylltiad lleol' os nad ydynt yn dymuno i hynny ddigwydd.*

- Mae ymchwil gan Stirling yn 2018 ar ymyriadau digartrefedd ieuenctid yng Nghymru,[41] yn nodi ei bod yn anodd cael mynediad at wybodaeth gynhwysfawr am gymorth tai sydd ar gael yng Nghymru. Ategir hyn gan yr Efelychiad Dysgu drwy Brofiad Ieuenctid y mae Llamau yn arloesi ag ef yng Nghymru.[42]
- Cynhaliodd Shelter Cymru ymchwil i'r rhesymau y tu ôl i droi pobl allan i ddigartrefedd yng Nghymru yn 2019.[43] Thema gyffredin yng nghanfyddiadau eu hymchwil oedd nad yw pobl ifanc yn aml iawn yn cael eu lleoli yn y math o lety sydd fwyaf addas i'w hanghenion.
- Mae'r gymuned LHDTC+ hefyd yn cael ei heffeithio'n anghymesur gan ddigartrefedd pobl ifanc. Canfu Ymddiriedolaeth Albert Kennedy fod 24% o'r boblogaeth ifanc ddigartref ledled y DU yn ystyried eu hunain yn LHDT.[44]

## Argymhellion posibl **Sylwer: Mae argymhellion eraill sy'n berthnasol i bobl ifanc i'w gweld yn yr adrannau ar gysylltiad lleol, dyletswyddau sector cyhoeddus ehangach (gan gynnwys y ddyletswydd i gyfeirio), yn ogystal ag yng nghyfarfodydd y Panel yn y dyfodol ar ddyraniadau.**

*1. Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried gwneud y canllawiau presennol yn statudol ar ddarparu cynghorydd personol i gefnogi gadawyr gofal dan 25 oed ag opsiynau llety, cael mynediad at fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, yn ogystal ag addysg a sgiliau bywyd.*

---

40 https://senedd.cymru/media/4h2di5vj/cr-ld15849-w.pdf
41 Youth-homelessness-and-care-leavers-Mapping-interventions-in-Wales.pdf (wcpp.org.uk)
42 Efelychiad Dysgu drwy Brofiad Ieuenctid Llamau - Missing People
43 https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2020/02/End-youth-evictions_CYM.pdf
44 https://www.llamau.org.uk/Handlers/Download.ashx?IDMF=1ab2fc66-c571-44f0-8ceb-2d1346f38303

*2. Bod dyletswydd i beidio â rhyddhau i ddigartrefedd ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal cymdeithasol neu sefydliadau diogel.*

*3. Ei bod yn ofynnol i awdurdodau tai lleol ganfod a oes gan geisydd brofiad o fod mewn gofal, a cheisio cymorth fel sy'n briodol gan wasanaethau cymdeithasol lle mae hynny'n berthnasol.*

*4. Bod Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn cael ei diwygio i ganiatáu i bobl ifanc 16 ac 17 oed allu dal contractau meddiannaeth.*

*5. Dylid ystyried pobl sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal fel rhai sydd ag angen blaenoriaethol nes bydd yn cael ei ddiddymu (gweler yr argymhelliad uchod o adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg).*

*6. Bod Llywodraeth Cymru yn lobio Llywodraeth y DU am welliannau lles penodol i bobl ifanc.*

*7. Dylai'r Fframwaith Cwricwlwm i ysgolion annog addysgu ar fyw'n annibynnol, gan weithio gyda gweithwyr proffesiynol (tai neu weithwyr cymdeithasol).*

*8. Bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellid addasu'r rhaglen "Pan Fydda i'n Barod" rhag bod gofalwyr maeth yn penderfynu nad ydynt am ddal i ddarparu llety i bobl ifanc ar ôl iddynt gael eu pen-blwydd yn 18 oed.*

*9. Dylai awdurdodau lleol weithio gyda phartneriaid i sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc sy'n wynebu risg o ddigartrefedd.*

# 5. Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)

## Trosolwg byr o'r ddeddfwriaeth bresennol

Mae **Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015**[45] yn amlinellu cyfrifoldebau'r sector cyhoeddus i nodi a darparu cymorth arbenigol i'r rhai sy'n profi trais, cam-drin domestig neu drais rhywiol.[46]

Mae **Deddf Tai (Cymru) 2014**[47] yn nodi bod gan berson sy'n ddigartref o ganlyniad i ddioddef cam-drin domestig ac unrhyw un (ac eithrio'r sawl sy'n cam-drin) sy'n byw gydag ef/hi, neu y byddai'n rhesymol disgwyl y byddai'n byw gydag ef/hi, angen blaenoriaethol am lety.[48] Nid oes angen iddo/iddi ddangos ei bod yn agored i niwed. Ni ddylai awdurdod lleol gyfeirio unigolyn at ardal arall os oes rhywun yn yr aelwyd

[45] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/3/contents/enacted/welsh
[46] Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru (2016) Y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
[47] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/7/contents/enacted/welsh
[48]https://england.shelter.org.uk/professional_resources/legal/homelessness_applications/homelessness_in_wales/homelessness_priority_need_categories_in_wales#title-4

yn wynebu risg o gamdriniaeth yn yr ardal honno. Rhaid i awdurdod lleol gefnogi ceisydd oni bai fod ganddo gysylltiad lleol ag ardal arall lle nad yw'r aelwyd yn wynebu risg o gamdriniaeth.[49]

Ni ddylai awdurdod lleol gyfeirio ceisydd at ardal arall os oes ganddo gysylltiad lleol â'r ardal arall dim ond oherwydd cysylltiadau teuluol ac nad yw'r goroeswr yn dymuno bod yn agos at deulu. Hyd yn oed os oes gan geisydd digartref lety y gall ei feddiannu yn gyfreithlon, mae'r Ddeddf yn sicrhau y dylai awdurdod lleol ddal i'w ystyried yn ddigartref os na all fyw yno oherwydd risg o gamdriniaeth (Adran 57).

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**[50] yn nodi dyletswyddau yn ymwneud â diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg, gan gynnwys oedolyn sy'n profi risg, neu sy'n wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.[51]

- **Dyletswydd i ymholi** lle mae awdurdod lleol yn amau bod unigolyn yn wynebu risg.
- **Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion**
  Gall awdurdod lleol benodi Swyddog Awdurdodedig i wneud cais i 'Ynad Heddwch' am orchymyn. Mae'r gorchymyn yn rhoi hawl i'r Swyddog Awdurdodedig fynd i eiddo (gyda chwnstabl), cael sgwrs breifat, gwirio bod penderfyniadau'n cael eu gwneud o wirfodd, penderfynu a yw 'oedolyn yn wynebu risg' ac a oes angen gwneud rhywbeth.
- **Dyletswydd i Adrodd**
  Rhaid i bartneriaid perthnasol awdurdod lleol roi gwybod i'w hawdurdod lleol pan fydd ganddynt le rhesymol i amau bod unigolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg yn ei awdurdod lleol neu mewn ardal awdurdod lleol arall neu ardal y mae'r oedolyn yn bwriadu symud iddi.

Mae dyletswyddau sy'n gymwys i'r awdurdod lleol a dyletswyddau sy'n gymwys i 'Bartneriaid Perthnasol' awdurdod lleol. O fewn y Ddeddf rhestrir y partneriaid hyn fel (Adran 162).[52]

O ran bod **Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus**, mae'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth oedolion cymwys, neu oedolion nad ydynt yn gymwys o bosibl ond y mae'r "awdurdod lleol yn barnu ei bod yn angenrheidiol diwallu'r anghenion er mwyn amddiffyn yr oedolyn rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso neu rhag risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso." Mae cyfyngiadau ar y ddyletswydd hon. Er enghraifft, mae adran 46 yn nodi ei bod yn bosibl na fydd oedolyn y mae adran 115 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 (gwahardd rhag budd-daliadau) yn gymwys iddo yn derbyn cymorth dim ond oherwydd ei fod yn ddiymgeledd neu oherwydd effeithiau corfforol bod yn ddiymgeledd.

Mae **Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016[53]** yn sicrhau bod modd targedu cyflawnwyr trais domestig ar gyfer eu troi allan er mwyn helpu i atal y rhai sy'n profi cam-drin domestig rhag mynd yn ddigartref. Gellir ychwanegu neu ddileu deiliaid contract ar y cyd o gontractau meddiannaeth heb fod angen gorffen un contract a dechrau un arall.

Mae **Deddf Cam-drin Domestig 2021 (y Deyrnas Unedig)** yn cyflwyno Hysbysiad Amddiffyn Cam-drin Domestig (DAPN) sifil newydd i ddarparu amddiffyniad ar unwaith yn dilyn digwyddiad cam-drin domestig, a Gorchymyn Amddiffyn Cam-drin Domestig (DAPO) sifil newydd i ddarparu amddiffyniad hyblyg, hirdymor i ddioddefwyr. Gall Gorchmynion Amddiffyn Cam-drin Domestig osod gwaharddiadau a gofynion penodol ar gyflawnwyr troseddau i roi gwybod am unrhyw newid cyfeiriad.

---

[49] Cysylltiad lleol - Shelter Cymru
[50] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents/welsh
[51] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/part/7/welsh
[52] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/section/162/welsh
[53] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/1/contents/welsh

Wedi'i amlinellu mewn canllawiau statudol, mae **"Gofyn a Gweithredu"** yn bolisi o ymholi wedi'i dargedu gan Lywodraeth Cymru, i'w ymarfer ar draws y gwasanaeth cyhoeddus, i nodi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.[54] Mae 'ymholi wedi'i dargedu' yn disgrifio adnabod dangosyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel ysgogiad i weithiwr proffesiynol ofyn i'w gleient a yw wedi cael ei effeithio gan unrhyw un o'r materion hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir drwy ganllawiau[55] nad yw hyn yr un fath ag ymholiad arferol, lle mae pob cleient yn cael ei sgrinio am brofiad posibl o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

## Y prif bwyntiau a drafodwyd gan y Panel

- Cytunodd y Panel i ystyried argymell diffiniad ehangach o gam-drin yn y Ddeddf Tai (sydd ar hyn o bryd yn ymdrin â cham-drin domestig yn unig) i fod yn gyson â'r diffiniad yn y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
- Bu'r Panel yn ystyried cryfhau'r canllawiau sy'n ymwneud â dyletswyddau ymateb ac atal er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn gallu gadael ar adeg briodol, yn hytrach nag aros i'r trais gynyddu.
- Nodwyd bod rhai cynlluniau dyrannu yn rhoi blaenoriaeth is i geiswyr os ydynt yn berchen ar gartref neu os oes ganddynt gyfalaf, sy'n broblem i bobl sy'n ffoi rhag camdriniaeth sydd o bosibl yn methu â chael mynediad uniongyrchol at y cyfalaf hwnnw.
- Nodwyd y byddai diddymu angen blaenoriaethol yn golygu na fyddai mwy o flaenoriaeth i'r dioddefwr nac i'r sawl sy'n cyflawni'r trais o safbwynt digartrefedd, a bydd angen ystyried dynameg hyn er mwyn sicrhau diogelwch pawb.
- Teimlai'r Panel nad yw amodau yn y Ddeddf Rhentu Cartrefi, sy'n galluogi menywod a phlant i ddewis aros yn y cartref drwy symud y sawl sy'n cyflawni'r troseddau oddi yno, yn cael eu gweithredu'n eang a bod angen mwy o ganllawiau o bosibl er mwyn hwyluso hyn. Teimlid hefyd y gallai mwy o gymorth gan asiantaethau eraill helpu menywod i aros yn eu cartrefi, lle mae'r sawl sy'n cyflawni'r troseddau wedi'i symud, ac os yw hynny'n unol â dymuniadau'r goroeswr ac yn briodol.
- Cafwyd trafodaeth faith ar sicrhau bod cyflawnwyr troseddau yn cael mynediad at lety dros dro a llety sefydlog er mwyn sicrhau diogelwch y goroeswr a lleihau unrhyw aflonyddu a cham-drin pellach os yw'r troseddwr yn ddigartref.
- Cytunid yn gyffredinol bod angen cydweithio ar draws y prif wasanaethau sy'n rhyngweithio â menywod sy'n wynebu cam-drin domestig. Cyfeiriwyd at gynadleddau MARAC fel enghraifft dda o ymdrin ag achosion risg uchel.
- Er na ddylai cysylltiad lleol fod yn gymwys lle mae risg o gam-drin/trais yn fater sy'n achosi pryder, roedd rhai goroeswyr wedi dweud bod angen iddynt brofi eu bod yn wynebu risg er mwyn cael eu heithrio o gysylltiad lleol. Mae'r Panel yn cydnabod yr anhawster sy'n gysylltiedig â hyn, a'r posibilrwydd o ail-fyw trawma, a chytunodd i ystyried argymhellion sy'n cryfhau hyn. (Gweler yr adran ar gysylltiad lleol ar gyfer yr argymhelliad).
- Trafododd aelodau'r Panel nifer o rwystrau sy'n atal unigolion rhag cael mynediad at loches ac roeddent yn cytuno bod ar y model angen opsiynau amrywiol fel bod goroeswyr yn gallu dewis y math o lety sydd fwyaf addas iddyn nhw.

---

[54] Canllawiau Statudol Llywodraeth Cymru (2016) Y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

[55] Canllawiau Llywodraeth Cymru (2017) Gweithredu "Gofyn a Gweithredu": Canllawiau i arweinwyr, cydgysylltwyr a rheolwyr mewn awdurdodau perthnasol

- Dywedwyd nad yw goroeswyr nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus yn gymwys i gael eu lletya drwy wasanaethau digartrefedd, er bod eu plant yn gymwys i gael eu lletya drwy'r gwasanaethau cymdeithasol. Yn aml iawn mae'r sefyllfa hon yn atal goroeswyr rhag cael cymorth.
- Dywedodd aelod o'r Panel y bydd yn bwysig, wrth ddod â'r argymhellion at ei gilydd, meddwl mwy am yr opsiynau cymorth yn y gymuned y tu allan i'r system dai a digartrefedd sydd ar gael i oroeswyr y byddai'n well ganddynt aros yn y cartref.

## Crynodeb o'r dystiolaeth i gefnogi'r trafodaethau hyn

### Adborth gan randdeiliaid

- Dywedodd rhanddeiliaid fod angen i gymorth arbenigol amrywiol fod ar gael i ddiwallu gwahanol anghenion goroeswyr. Mae diffyg darpariaeth arbenigol i oroeswyr mathau ehangach o gam-drin, gan gynnwys; y rhai sy'n cael eu hecsbloetio gan y diwydiant rhyw, goroeswyr trais rhywiol a menywod sydd wedi profi'r math o drais a elwir yn drais ar sail 'anrhydedd'.
- Yn aml iawn mae menywod sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus, yn profi rhwystrau ychwanegol wrth geisio cael mynediad at dai. Gallai hyn gynnwys rhwystrau diwylliannol ac ieithyddol, diffyg cymhwysedd i gael cymorth, ac ofn y bydd eu plant yn cael eu cymryd o'u gofal os byddant yn gofyn am gymorth tai.
- Yn yr un modd, dywedwyd bod perchen-feddianwyr neu bobl sydd mewn cyflogaeth amser llawn sy'n dianc rhag cam-driniaeth yn wynebu anawsterau wrth geisio cael mynediad at dai cymdeithasol a chymorth oherwydd eu bod yn methu â chael budd-daliadau tai. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod y grŵp hwn yn dal i fethu â chael mynediad at gyllid ar unwaith, neu at ddigon o gyllid, i sicrhau llety.
- Dywedwyd hefyd bod angen ystyried sut y mae anghenion llety'r rhai sy'n cyflawni troseddau yn cael eu diwallu, er mwyn osgoi digartrefedd yn y grŵp hwn ac er mwyn helpu i sicrhau nad yw'r cam-drin yn parhau.
- Mae fforddiadwyedd tai a'r cyflenwad o dai yn achosi tagfeydd mewn llochesi ac mae hynny'n amharu ar eu gallu i letya mwy o oroeswyr wrth iddynt ddod at y gwasanaethau.
- Mae angen i wasanaethau tai weithredu ar sail sy'n fwy seiliedig ar drawma ac ymateb i anghenion unigryw ac unigol.
- Nid yw dyletswyddau Cysylltiad Lleol ac Angen Blaenoriaethol, fel y maent yn berthnasol i oroeswyr cam-drin domestig, bob amser yn cael eu dehongli'n gywir gan yr awdurdod lleol.
- Mae angen ystyried sut y diwellir anghenion llety'r rhai sy'n cyflawni troseddau, er mwyn osgoi digartrefedd yn y grŵp hwn ac er mwyn sicrhau nad yw'r cam-drin yn parhau.
- Teimlid y byddai gwaith Amlasiantaethol Rhanbarthol o gymorth er mwyn cydlynu gwasanaethau yn well.
- Dywedodd rhanddeiliaid fod gofyn i oroeswyr ailadrodd eu stori er mwyn cael mynediad at gymorth yn gallu bod yn brofiad trawmatig iddynt. Dywedasant hefyd y gall dangos statws unigolyn fel goroeswr cam-drin domestig fod yn anodd os nad yw wedi cael cymorth ffurfiol cyn dianc o'r cartref.
- Teimlai'r rhanddeiliaid fod Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) yn atal llety symud ymlaen oherwydd:
    - Gallai fod yn anos i oroeswr gael mynediad at gymorth digartrefedd os bernir eu bod mewn llety sefydlog oherwydd eu bod ar gontract diogel.

- Bydd contractau diogel yn rhwystr i wasanaethau sy'n adleoli goroeswr i loches wahanol, er enghraifft, os bydd y sawl sy'n cyflawni'r troseddau yn dod yn ymwybodol o leoliad y lloches.
- Ni ddylid ystyried lloches fel lleoliad hirdymor.

### Adborth gan Arbenigwyr drwy Brofiad

- Dywedodd pobl â phrofiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol eu bod wedi cael anhawster i ganfod eu ffordd o gwmpas y system a gwybod ble i droi am gymorth.
- Dywedodd goroeswyr fod ymateb cyflym gan awdurdodau lleol yn hollbwysig ar gyfer diogelwch. Fodd bynnag, yn aml iawn, oherwydd diffyg cyflenwad, nid dyma brofiad goroeswyr.
- Dywedodd arbenigwyr drwy brofiad fod gan oroeswyr yn aml gysylltiadau ariannol cymhleth, neu eu bod wedi profi camdriniaeth ariannol gan y sawl sydd wedi cyflawni troseddau yn eu herbyn, a bod hynny wedyn yn eu rhwystro rhag cael mynediad at gymorth tai.
- Pwysleisiwyd bod llety dros dro yn aml yn anaddas i anghenion menywod a'u plant.
- Dywedodd arbenigwyr drwy brofiad nad oedd y prawf cysylltiad lleol yn gweithio fel y dylai bob amser.
- Dywedodd goroeswyr cam-drin domestig eu bod yn aml yn gallu teimlo dan bwysau i dderbyn y sawl sydd wedi troseddu yn ôl i'w cartref os yw'r person hwnnw yn ddigartref ar y stryd. Awgrymwyd y gallai'r risg o hyn fod yn is pe bai'r rhai sy'n cyflawni troseddau yn cael llety boddhaol.
- Roedd y goroeswyr o'r farn fod cymorth arbenigol a seiliedig ar drawma i ddioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn hollbwysig.

### Ymchwil

- Mae Monitor Digartrefedd Prydain 2022[56] yn dangos bod nifer yr aelwydydd yn Lloegr sy'n dweud mai cam-drin domestig oedd prif achos eu digartrefedd wedi cynyddu y naill flwyddyn ar ôl y llall rhwng 2018/19 a 2020/21. Yn yr un modd yng Nghymru, er nad oes data llawn ar gael, dywedodd awdurdodau lleol eu bod yn gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n cysylltu i gael cymorth digartrefedd oherwydd cam-drin domestig, yn enwedig yn ystod cyfyngiadau symud Covid-19.[57]
- Canfu adroddiad yn 2020[58] fod model lloches confensiynol yn cynnwys manteision i'r goroeswr, er enghraifft diogelwch ac anonymedd, mynediad at gymorth cymheiriaid a chymorth dwys ar y safle, ond bod heriau i'w cael hefyd, er enghraifft gorfod symud oddi wrth rwydweithiau cefnogi a rheolau tŷ sy'n gwneud unigolyn yn llai hyderus, dan y model presennol.
- Mae menywod sy'n ddigartref ac sydd â nifer o broblemau sy'n bodoli yr un pryd (er enghraifft problemau iechyd meddwl neu broblemau defnyddio cyffuriau) yn wynebu mwy o rwystrau wrth geisio cael mynediad at gymorth arbenigol i fenywod  i'w cynorthwyo i wella ar ôl camdriniaeth a thrawma.[59]

---

[56] Watts B, Bramley G, Fitzpatrick S, McMordie L, Pawson H ac Young G (2022) The homelessness monitor: Great Britain 2022 tt.59-61
[57] Fitzpatrick, S. et al (2022) The homelessness monitor: Great Britain 2022. Crisis: Llundain.
[58] Adisa, O., Allen, K., Costello, F. a Meehan, A. (2020). A scoping review of refuge provision models. Prifysgol Suffolk.
[59] FEANTSA (2022) Housing First and Women: Case studies from across Europe

- Dywedodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod achosion o "*ymarfer gwael ac anystyriol*" wrth gefnogi goroeswyr cam-drin domestig i gael llety, yn enwedig yn achos goroeswyr yn cael eu lleoli yn agos at gyflawnwyr troseddau.[60]
- Mae menywod sydd â statws mewnfudo ansefydlog, neu y mae eu statws mewnfudo yn dibynnu ar gymar neu gyflogwr, yn aml yn wynebu mwy o risg o drais a cham-fanteisio.[61, 62]
- Roedd adolygiad annibynnol o wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru[63] a gyhoeddwyd yn 2014 yn cyfeirio at anawsterau wrth geisio dod o hyd i lety diogel i fenywod heb hawl i gyllid cyhoeddus ac i fenywod â chyflogaeth am dâl.
- Roedd adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru[64] yn awgrymu bod angen gwella'r modd y rhennir data er mwyn cynorthwyo goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

### Argymhellion posibl

**Sylwer y bydd argymhellion sy'n berthnasol i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol hefyd yn cael eu gwneud yn yr adran ar gysylltiad lleol ac yn ystyriaethau'r Panel ar ddyraniadau mewn cyfarfod yn ddiweddarach (y naill a'r llall mewn cysylltiad â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a chyflawnwyr troseddau).**

**Bydd eitemau a godir yn y nodyn cyngor cyfreithiol ynglŷn â llety brys a'r ddyletswydd liniaru yn cael eu hystyried yng nghyfarfod nesaf y panel ar 30 Mehefin.**

## *Y diffiniad o "gam-drin"*

*1a. Yng nghyd-destun deddfwriaeth digartrefedd, efallai y byddai'r Panel yn hoffi argymell diwygio'r diffiniad o "gam-drin" i gynnwys ymddygiad sy'n rheoli neu orfodi, cam-drin economaidd neu gam-drin seicolegol.*

***A/Neu***

*1b. Diwygio'r diffiniad o "gam-drin domestig" fel bod modd iddo fod yn gymwys lle mae'r cam-drin yn cael ei gyflawni gan unigolyn sydd mewn perthynas bersonol agos â'r dioddefwr, gan ddileu'r gofyniad y dylai fod wedi bod yn digwydd am gyfnod arwyddocaol.*

## *"Gofyn a Gweithredu"*

*2a. Gofyn i Weinidogion Cymru gynnwys y dyletswyddau "Gofyn a Gweithredu" yn y Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasau Tai a Gofrestrwyd yng Nghymru.*

*2b. Gofyn am gael ystyriaeth i hyfforddiant ar "Ofyn a Gweithredu" i landlordiaid preifat fel rhan o'r broses o gofrestru ar gyfer Rhentu Doeth Cymru.*

---

[60] Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (2021) Adolygiad Digartrefedd: drws agored i newid cadarnhaol
[61] https://welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2021/11/No-Recourse-to-Public-Funds-%E2%80%93-Welsh-Womens-Aid-Briefing-for-MSs.pdf
[62] BAWSO (2021) ANNUAL REPORT CHANGING LIVES
[63] Berry V, Stanley N, Radford L, McCarry M, Larkins C (2014) Building Effective Responses: An Independent Review of Violence against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence Services in Wales
[64] Swyddfa Archwilio Cymru (2019) Cynnydd o ran gweithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

## *Atal*

*3. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod canllawiau yn gofyn i wasanaethau tai awdurdodau lleol ystyried camdriniaeth hanesyddol goroeswr os oes goblygiadau yn gysylltiedig â'i ofynion llety.*

*4. Dylai gwasanaethau atal digartrefedd weithio gyda phartneriaid eraill er mwyn sicrhau eu bod yn gallu diwallu anghenion pobl sydd angen cymorth tai oherwydd cam-drin domestig. Dylai dull gweithredu o'r fath fod yn gydlynol, gan gynnwys cynllunio gwasanaethau priodol, cydweithio ar draws gwasanaethau tai, digartrefedd a gwasanaethau eraill a hyfforddiant i staff. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod gan wasanaethau digartrefedd a thai brotocolau effeithiol yn eu lle i adnabod arwyddion camdriniaeth mor gynnar ag sy'n bosibl a helpu pobl y mae eu llety mewn perygl o ganlyniad i gam-drin domestig.*

## *Galluogi goroeswyr i gadw llety*

*5a. Dylai'r brif ddyletswydd dai gynnwys dyletswydd i helpu'r ceisydd i gadw ei lety presennol (ar unwaith neu yn yr hirdymor) os yw'n dymuno hynny (gallai cymorth o'r fath gynnwys cynorthwyo'r ceisydd i gael gorchymyn meddiannaeth, gosod nodweddion diogelwch ffisegol, ei helpu i gael cyngor i drosglwyddo perchnogaeth neu denantiaeth i'w enw ef/hi).*

*5b. Dylid ystyried barn y ceisydd ynglŷn â ble y byddai'n ddiogel, o ran lleoliad unrhyw lety a gaiff ei sicrhau dan ddyletswyddau Deddf Tai Cymru.*

*5c. Dylai canllawiau nodi y dylid ystyried agosrwydd a hygyrchedd rhwydwaith cefnogi'r ceisydd (a allai fod yn ehangach na theulu) wrth ystyried lleoliad llety.*

*5d. Gallai "cynorthwyo" ceisydd gynnwys ei gynorthwyo i gael gorchymyn meddiannaeth neu osod nodweddion diogelwch ffisegol, os dyna ddymuniad y ceisydd.*

*5e. Gallai "cynorthwyo" ceisydd hefyd gynnwys ei gynorthwyo i gael cyngor er mwyn sicrhau ei lety presennol yn yr hirdymor, os dyma fyddai orau gan y ceisydd.*

## *Heb hawl i gyllid cyhoeddus (NRPF)*

*6a. Lle mae gwasanaethau cymdeithasol yn cefnogi goroeswr cam-drin domestig nad oes ganddo hawl i gyllid cyhoeddus dan ddyletswyddau'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, gallai canllawiau nodi y dylai rhan o'r cymorth cefnogi fod yn gymorth i wneud cais am godi'r amod heb hawl i gyllid cyhoeddus a/neu gais am y Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd.*

*6b. Bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno sylwadau i Swyddfa Gartref y DU gan nodi y dylai goroeswyr cam-drin domestig nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus fod yn gymwys i gael cymorth digartrefedd.*

## *Addasrwydd llety*

*7a. Gallai rhwydwaith cefnogi'r ceisydd fod yn ehangach na'i rwydwaith teuluol, a dylai fod yn berthnasol i leoliad y llety;*

*7b. Os cynigir llety nad yw'n llety cynhwysol i oroeswr cam-drin domestig, dylid cynnig yr opsiwn o lety menywod yn unig.*

### *Deddf Rhentu Cartrefi Cymru*

*8a. Wrth adolygu gweithrediad Deddf Rhentu Cartrefi Cymru, dylai Llywodraeth Cymru ystyried a fu effaith negyddol o safbwynt sicrhau contractau a symud ymlaen o lochesi.*
*8b. Bod Llywodraeth Cymru yn ceisio cryfhau canllawiau ac ymwybyddiaeth o'r gallu i symud cyflawnwyr troseddau o gartref lle mae tenantiaeth ar y cyd.*

# 6. Cyfiawnder Troseddol

## Trosolwg byr o'r ddeddfwriaeth bresennol

Mae **Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014** yn nodi mai Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru sy'n gyfrifol am reoli troseddwyr risg isel i ganolig a chynllunio ar gyfer ailsefydlu pob carcharor sy'n dychwelyd i Gymru ar ôl cael ei ryddhau.

Dan **Ddeddf Tai (Cymru) 2014,** mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i sicrhau:

- Bod strategaeth digartrefedd awdurdodau lleol yn cynnwys camau penodol i fynd i'r afael ag anghenion y rhai a gedwir yn y ddalfa.
- Bod pob gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn diwallu anghenion grwpiau sy'n wynebu risg benodol o ddigartrefedd, gan gynnwys pobl sy'n gadael carchar neu lety cadw ieuenctid.

Mae unrhyw un sy'n cael ei gadw yn y ddalfa sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer bygythiad o ddigartrefedd neu ddigartrefedd yn gymwys yn unol â'r gyfraith ar gyfer y dyletswyddau sydd yn y Ddeddf.

Mae'r ddyletswydd atal yn golygu bod gan awdurdodau lleol ddyletswydd i weithio gyda phobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r carchar.

Caiff rhywun sy'n gwneud cais am gymorth tai a digartrefedd ei gategoreiddio fel un ag angen blaenoriaethol os yw'n 'hyglwyf o ganlyniad i dreulio amser yn y ddalfa'. Mae'r Cod Canllawiau[65] yn amlinellu ffactorau y dylai awdurdodau lleol eu hystyried wrth benderfynu a yw person yn hyglwyf o ganlyniad i dreulio amser yn y ddalfa.

Mae'r Cod Canllawiau hefyd yn nodi 'nad yw preswylio mewn carchar ynddo'i hun yn sefydlu cysylltiad lleol ag ardal' ond mae hefyd yn egluro y gallai gadawyr carchar fod â rhesymau arbennig dros ddymuno cael eu hadleoli allan o ardal, er enghraifft er mwyn pellhau eu hunain oddi wrth bobl y maent yn eu hadnabod. Gallent hefyd gael eu hatal rhag dychwelyd i ardal eu cartref oherwydd telerau eu trwydded. (Gweler yr adran cysylltiad lleol ar gyfer yr argymhelliad).

Mae'r **Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel** yn darparu canllawiau i asiantaethau sy'n ymwneud â chynlluniau ailsefydlu ar gyfer pobl sydd yn y ddalfa o'r adeg y maent yn cael eu derbyn nes byddant yn cael eu rhyddhau. Mae'n ddull gweithredu ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru ac Awdurdodau Lleol er mwyn pontio'r bwlch rhwng Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 2014 a Deddf Tai (Cymru) 2014.

---

[65] Gweler allocation-of-accommodation-and-homelessness-guidance-for-local-authorities.pdf (llyw.cymru)

Mae'r tabl yn Atodiad A yn darparu trosolwg sylfaenol o sut mae'r Llwybr yn integreiddio â Deddf Tai (Cymru) 2014.[66]

Dan Ran 11 o **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014,[67]** ni all carcharor fynegi ei fod yn ffafrio math penodol o lety tra mae'n cael ei gadw mewn carchar, canolfan gadw ieuenctid neu fangre a gymeradwywyd. Mae hefyd yn nodi na all carcharor gael ei eiddo wedi'i amddiffyn gan yr awdurdod lleol tra mae mewn carchar, canolfan gadw ieuenctid neu fangre a gymeradwywyd.

## Y prif bwyntiau a drafodwyd gan y Panel

- Roedd y Panel yn cydnabod bod y grŵp hwn o bobl yn wynebu haenau ychwanegol o ragfarn, yn ychwanegol at y rhagfarn y mae pobl ddigartref yn ei hwynebu'n barod, gan arwain at fwy o rwystrau tai.
- Bu'r Panel yn trafod pryd fyddai'r amser mwyaf buddiol i'r ddyletswydd atal fod yn gymwys i bobl sydd yn y ddalfa.
- Bu'r Panel yn ystyried pa gymorth a gwybodaeth ddylai fod ar gael i bobl mewn cysylltiad â chadw eu llety drwy ddefnyddio hawliadau i fudd-dal (dedfryd dymor byr) neu gynnig cymorth i adael tenantiaethau rhag bod ôl-ddyledion rhent yn crynhoi (ffactor y gwyddys ei fod yn rhwystr wrth adael y ddalfa).
- Dywedwyd bod angen i ddeddfwriaeth sicrhau bod pobl yn cael mynediad at y lefel briodol o gymorth yn y ddalfa gan y byddai hyn yn ymyriad hollbwysig er mwyn atal digartrefedd.
- Dywedwyd bod y lleoliad lle mae unigolyn wedi cael ei ganfod yn euog yn gallu bod yn broblem os yw'n wahanol i'r sir lle mae'n byw, gan fod unigolyn yn cael ei ryddhau i'r ardal lle mae wedi troseddu ac nid i'r ardal lle mae ganddo gysylltiad lleol. Mae'n bosibl y bydd yr ardal y mae unigolyn yn dod ohoni yn wahanol i'r ardal lle mae arno eisiau bod.
- Dywedwyd bod angen hysbysu awdurdodau lleol cyn gynted ag y bo modd ynglŷn â phobl sy'n cael eu galw'n ôl i'r carchar er mwyn sicrhau nad yw troseddwyr yn crynhoi ôl-ddyledion rhent yn ddiangen.
- Dywedwyd bod diwrnodau rhyddhau amhriodol, er enghraifft dydd Gwener a gwyliau'r banc yn dal yn broblem i bobl sy'n ceisio sicrhau llety ar y diwrnod y maent yn cael eu rhyddhau ac y dylai'r Panel ystyried gwneud argymhellion yn ymwneud â hyn.
- Dywedwyd bod dyletswydd yn barod ar garchardai i nodi a fydd gan bobl lety pan fyddant yn cael eu rhyddhau, ond efallai y byddai'r Panel yn hoffi ystyried ymestyn y ddyletswydd hon i nodi pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd, neu golli'r llety hwnnw.
- Dywedwyd bod llawer o bobl ag euogfarnau penodol, oherwydd polisïau dyrannu, sy'n methu â gwneud cais am dai cymdeithasol.

## Crynodeb o dystiolaeth i gefnogi'r trafodaethau hyn

### Adborth gan randdeiliaid

- Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod canllawiau a systemau yn awgrymu y dylai cynllunio amlasiantaethol ddigwydd cyn rhyddhau, ond nad yw hyn yn digwydd yn aml iawn, a bod unigolion sy'n gadael

[66] 'Homelessness: The Law in Wales', Section: Prisoners and homelessness t.44, gweler https://www.lawworks.org.uk/sites/default/files/files/An-Intro-to-Homlessness-Housing-%28Wales%29-Act-Part-2-Delegates-notes-Jan2019.pdf
[67] cod-ymarfer-rhan-11-amrywiol-a-chyffredinol.pdf (llyw.cymru)

carchar yn cael eu gadael heb lety pan fyddant yn cael eu rhyddhau neu'n dibynnu ar lety dros dro heb unrhyw sefydlogrwydd.

- Er gwaethaf canllawiau ynglŷn ag osgoi rhyddhau ar ddydd Gwener, amlinellodd rhanddeiliaid fod hyn yn dal i ddigwydd yn ymarferol a'i fod yn golygu bod pobl sy'n gadael y carchar yn cael anhawster i ddod o hyd i lety ar gyfer y penwythnos.
- Dywedodd rhanddeiliaid y gallai polisïau landlordiaid cymdeithasol cofrestredig olygu ei bod yn anodd dod o hyd i lety i gyn-droseddwr, a'i bod yn aml yn haws dod o hyd i lety â landlord preifat, er y gallai hyn olygu rhagfarn a stigma.
- Dywedwyd bod polisïau yswiriant landlordiaid hefyd yn rhwystr i rai cyn-droseddwyr.
- Roedd achosion o bobl yn gadael carchar ac yn cael eu rhoi mewn llety dros dro a oedd yn ei gwneud yn anodd iddynt fynd i gyfarfodydd prawf.
- Dywedodd rhanddeiliaid nad oedd carcharorion yn aml iawn yn deall eu hawliau ac y gallent deimlo dan bwysau i ildio tenantiaethau wrth dreulio eu dedfryd.
- Dywedodd rhanddeiliaid fod gan garcharorion yn aml anghenion cymhleth sy'n croestorri, gan gynnwys anawsterau dysgu, anghenion cyfathrebu, neu anghenion yn ymwneud ag iechyd meddwl neu ddefnyddio sylweddau.
- Teimlai'r rhanddeiliaid fod y llwybr presennol yn dibynnu ar y ffordd y mae'n cael ei ddehongli.
- Pwysleisiwyd y gall carcharorion yn aml grynhoi dyled neu gael anhawster ariannol i sicrhau eiddo oherwydd eu statws di-waith.
- Lle mae cyfyngiadau ar ble y gall unigolion sy'n gadael y carchar fyw oherwydd natur eu trosedd, cyfeiriodd rhanddeiliaid at ddiffyg blaengynllunio ac oedi wrth aros i'r heddlu gymeradwyo eiddo yn ffurfiol.

### Adborth gan Arbenigwyr drwy Brofiad

- Trafododd yr arbenigwyr drwy brofiad effaith cael eu lleoli mewn llety dros dro anaddas a sut y gallai hyn eu gadael yn agored i gamddefnyddio sylweddau neu aildroseddu.
- Dywedodd rhai a oedd yn gadael carchar eu bod wedi colli eiddo o'u preswylfeydd blaenorol wrth fynd i'r carchar a disgrifiasant deimlad o golli hunaniaeth o ganlyniad i hynny.
- Dywedodd rhai eu bod wedi teimlo pwysau i ildio eu tenantiaeth tai cymdeithasol a phwysleisiwyd bod angen mwy o eiriolaeth neu gymorth cyfreithiol.
- Teimlai nifer o arbenigwyr drwy brofiad eu bod wedi cael profiadau negyddol gyda'r heddlu a'u bod wedi teimlo stigma.
- Cyfeiriodd nifer at anawsterau wrth geisio cael mynediad at gymorth iechyd meddwl ar ôl cael eu rhyddhau a chael mynediad at fudd-daliadau.
- Dywedodd nifer ohonynt eu bod yn teimlo nad oeddent wedi cael eu paratoi yn ddigon da ar gyfer gadael carchar, ac awgrymodd un o'r rhai a gyfwelwyd y dylai carchardai gynnal cyrsiau parod ar gyfer tenantiaeth. Awgrymodd un arall y byddai cael gweithiwr allweddol yn fuddiol.
- Dywedodd llawer eu bod yn teimlo ei bod yn anodd iddynt ganfod eu ffordd o gwmpas y systemau a'i bod yn anodd i bobl ag anghenion dysgu eu defnyddio.
- Mynegodd yr arbenigwyr drwy brofiad hefyd rwystredigaeth oherwydd oedi wrth aros i lety gael ei gymeradwyo.

Ymchwil

- Mae troseddoli digartrefedd, ac yn fwy penodol cysgu allan, drwy'r Ddeddf Crwydraeth (a deddfwriaeth bosibl yn ei lle) yn atal pobl rhag dod â'u digartrefedd i ben. Yn 2023 mae ymatebion Rhyddid Gwybodaeth o 29 o heddluoedd ledled Cymru a Lloegr yn dangos bod swyddogion wedi arestio 1,173 o bobl er 2021 am droseddau dan y Ddeddf Crwydraeth.[68]
- Yn 2019 argymhellodd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru y dylid casglu data sy'n ymwneud yn benodol â Chymru a'u cyhoeddi ar ddigon o raddfa fel bod modd eu dadgyfuno, gyda'r bwriad o ddatblygu polisi priodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac fel sail i ymchwil.
- Canfu gwerthusiad o'r Llwybr oedolion a gynhaliwyd yn 2018 gan Brifysgol Glyndŵr Wrecsam a Phrifysgol Salford[69] broblemau â chyfathrebu a rhannu gwybodaeth, ac roedd yn argymell y dylai timau tai awdurdodau lleol symud y tu hwnt i ddull gweithdrefnol a gweinyddol ac ymgysylltu'n fwy pendant â rhai sy'n gadael carchar i'w helpu i sicrhau llety.
- Mae adroddiad Sicrhau Cyfiawnder i Gymru gan Lywodraeth Cymru yn amlinellu'r 'llu o heriau'[70] y mae rhai pobl yn eu hwynebu pan fyddant yn cael eu rhyddhau o'r carchar, gan gynnwys y gallu i fodloni gofynion landlord. Gallai'r rhain gynnwys geirdaon, cyfriflenni banc, dogfennaeth adnabod, blaendal uchel neu rent ymlaen llaw.

## Argymhellion posibl

**Sylwer y bydd argymhellion eraill sy'n berthnasol i rai sy'n gadael y carchar yn cael eu hystyried yn yr adran ar gysylltiad lleol ac yn nhrafodaethau'r Panel ar ddyraniadau yn y dyfodol.**

### *Atal*

*1a. Bod deddfwriaeth yn nodi nad yw carcharorion yn ddigartref;*
*1b. Y dylai deddfwriaeth nodi bod carcharorion sydd o fewn chwe mis o gael eu rhyddhau yn wynebu bygythiad o ddigartrefedd;*
*1c. Y dylai deddfwriaeth nodi, lle mae ar garcharor angen llety gan awdurdod tai lleol er mwyn cael ei ryddhau yn gynnar, cael ei ryddhau ar barôl neu gael ei ryddhau ar fechnïaeth, y bydd carcharor yn cael ei ystyried yn ddigartref ar y dyddiad rhyddhau yn gynnar ac y bydd prif ddyletswydd dai adran 75(1) yn gymwys, fel nad yw carcharor yn cael ei atal rhag cael ei ryddhau oherwydd nad oes ganddo lety;*
*1d. Bod y gwaith o lunio'r asesiad o angen a chynllun tai personol yn ystod y ddyletswydd atal (chwe mis cyn rhyddhau) yn cael ei wneud yn gynnar yn y broses, ar ôl ymweliad â'r carchar, a bod dymuniadau'r carcharor ynglŷn â'r canlyniad y mae ef neu hi yn gobeithio ei gael yn cael eu cofnodi a'u hystyried;*
*1e. Gallai'r dymuniadau hynny gynnwys cadw llety presennol, a byddai'n rhaid i'r awdurdod tai lleol wedyn gymryd camau i helpu i gadw'r llety presennol (er enghraifft trefnu i dalu budd-dal, rhent neu ganiatáu i is-denant feddiannu'r llety);*
*1f. Bod yn rhaid ailasesu'r asesiad o angen a'r cynllun tai personol pan fydd y dyddiad rhyddhau yn agosáu;*
*1g. Y gellid cynnig llety i'r carcharor yn ystod y ddyletswydd atal, gyda'r bwriad y bydd ar gael pan fydd y carcharor yn cael ei ryddhau, naill ai dan gontract meddiannaeth neu ar sail fwy anffurfiol (llety gyda theulu neu ffrindiau) ond na fydd y carcharor yn cael ei gosbi os bydd ef neu hi yn gwrthod y cynnig o lety anffurfiol;*

---

[68] Gweler https://www.gov.uk/government/publications/biometrics-and-surveillance-camera-commissioner-foi-responses-2023/bscc-foi-0423-th-police-force-compliance-visits#annex-b--reports-letters-sent-to-forces-following-compliance-visits
[69] Madoc-Jones, I., Hughes, C., Dubberley, S., Gorden. C., Washington-Dyer, K., Wilson, F., Ahmed, A., Lockwood, K. a Wilding, M (2018) *Evaluation of homelessness services to adults in the secure estate*
[70] Llywodraeth Cymru (2022) *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru,* t.86

*1h. Y dylai'r brif ddyletswydd dai fod yn gymwys os bydd y ddyletswydd atal yn dod i ben a bod y ceisydd yn mynd i fod yn ddigartref pan gaiff ei ryddhau, hyd yn oed os yw'r ceisydd wedi gwrthod llety a gynigiwyd dan y ddyletswydd atal.*
*1i. Bod gweithiwr proffesiynol yn cael ei enwebu fel prif gydlynydd er mwyn cynllunio cymorth tai carcharor.*

### *Dyletswydd i gyfeirio*

*2. Bod Llywodraeth Cymru yn cysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau bod y ddyletswydd i gyfeirio [fel yr amlinellir yn argymhelliad 1 o'r adran ar ddyletswyddau ehangach] yn gymwys i'r heddlu, llywodraethwyr carchardai, cyfarwyddwyr carchardai sy'n cael eu rhedeg ar gontract, llywodraethwyr sefydliadau troseddwyr ifanc, llywodraethwyr canolfannau hyfforddi diogel, cyfarwyddwyr canolfannau hyfforddi diogel sy'n cael eu rhedeg ar gontract, penaethiaid colegau diogel, timau troseddwyr ifanc a darparwyr gwasanaethau prawf.*

### *Pobl ifanc sy'n gadael sefydliadau diogel*

*3a. Y dylai deddfwriaeth a chanllawiau nodi'n glir bod carcharorion 16 ac 17 oed, sy'n disgwyl cael eu rhyddhau cyn pen chwe mis, yn gyfrifoldeb i'r gwasanaethau cymdeithasol.*

*3b. Yn yr un modd, os yw gadawyr gofal 18 – 21 oed (neu 18 – 24 os ydynt mewn addysg neu hyfforddiant) yn mynd i fod yn gyfrifoldeb i'r gwasanaethau cymdeithasol ac yn mynd i gael eu llety wedi'i ddarparu gan y gwasanaethau cymdeithasol, dylai'r un peth fod yn gymwys i garcharorion ifanc a oedd yn y ddalfa unrhyw bryd cyn eu pen-blwydd yn 18 oed, a rhwng 18 a 21, sy'n disgwyl cael eu rhyddhau.*

*3c. Dylai'r ddyletswydd i gyfeirio fod yn berthnasol i'r Tîm Troseddau Ieuenctid.*

### *Eiriolaeth a chefnogaeth*

*4a. Dylai gwasanaethau opsiynau tai lleol weithio gyda'r gwasanaeth llysoedd i sicrhau bod cyngor ynglŷn ag opsiynau tai ar gael yn rhwydd mewn llysoedd.*
*4b. Dylid hysbysu carcharorion ynglŷn â'u hawliau tai a chynnig cymorth eiriolaeth.*

### *Amrywiol*

*5a. Dylid diwygio Rhan 11 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i nodi y dylid cymryd pob cam rhesymol i gynorthwyo carcharor i wneud trefniadau i gadw ei eiddo tra mae'n treulio ei ddedfryd.*

*5b. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a diweddaru'r Llwybr Cenedlaethol, gan ystyried a ellid rhoi agweddau ar y canllawiau hyn ar sylfaen statudol.*

*6c. Dylai Llywodraeth Cymru geisio annog yr arfer o osgoi rhyddhau o'r carchar ar ddydd Gwener.*

*6d. Dylai Rhentu Doeth Cymru ddarparu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ymhlith landlordiaid preifat er mwyn sicrhau ei bod yn haws i bobl sy'n gadael y carchar ddod o hyd i gartref ar rent.*

*6e. Dylai Llywodraeth Cymru alw ar San Steffan i symud ymlaen â'r dasg o ddad-droseddoli cardota dan y Ddeddf Crwydraeth ac annog ymarfer da ymhlith heddluoedd Cymru.*

*6f. Dylai Llywodraeth Cymru geisio cael gwell data am bobl sy'n gadael y carchar a materion tai.*

*6g. Drwy weithio gyda phartneriaid eraill, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod y gwasanaeth ar gyfer atal a lleihau digartrefedd wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion pobl sy'n gadael y carchar neu sefydliad cadw ieuenctid, ac unrhyw un sy'n wynebu risg o ddigartrefedd oherwydd bod achos llys ar fin cael ei gynnal.*

# 7. Dyletswydd yn ymwneud â chymorth i gadw tenantiaeth

## Y ddeddfwriaeth bresennol – cymorth i gadw llety

Dan adran 62 o **Ddeddf Tai (Cymru) 2014**, mae gan awdurdod lleol yng Nghymru ddyletswydd i asesu unrhyw geisydd sy'n gwneud cais i'r awdurdod am lety neu gymorth i gadw neu gael gafael ar lety, lle mae'n ymddangos i'r awdurdod ei fod yn ddigartref neu'n wynebu bygythiad o fod yn ddigartref cyn pen 56 diwrnod.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau a roddir yn y ddeddfwriaeth (adran 64 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014) o'r hyn y gellir ei ddarparu neu ei drefnu er mwyn sicrhau neu helpu i sicrhau bod llety addas ar gael, neu nad yw'n peidio â bod ar gael, i'r ceisydd ei feddiannu:
(a) cyfryngu
(b) taliadau ar ffurf grant neu fenthyciad
(c) gwarantau y bydd taliadau yn cael eu gwneud
(d) cefnogaeth i reoli dyled, ôl-ddyledion morgais neu ôl-ddyledion rhent
(e) mesurau diogelwch i geiswyr sydd mewn perygl o wynebu camdriniaeth
(f) eiriolaeth neu gynrychiolaeth arall
(g) llety
(h) gwybodaeth a chyngor
(i) gwasanaethau, nwyddau neu gyfleusterau eraill.

### Amlinelliad o'r argymhelliad ar 3 Chwefror

Ystyriodd y Panel naill ai:

> *1a) Diwygio Deddf Tai (Cymru) 2014 fel bod dyletswydd ar yr awdurdod tai lleol, mewn sefyllfa lle mae wedi asesu bod ar y ceisydd angen cymorth i gadw llety, i ddarparu cymorth tai ac i ofyn i awdurdodau eraill gydweithredu i ddarparu cymorth ar wahân i gymorth tai sydd ei angen er mwyn i'r ceisydd allu cadw'r llety. Gallai'r geiriad a awgrymir gynnwys: "lle bo ceisydd wedi cael ei asesu fel un sydd angen cymorth er mwyn cadw llety, mae dyletswydd ar yr awdurdod tai lleol i: a. Darparu'r cyfryw gymorth sydd o fewn ei swyddogaethau; a b. Gofyn i awdurdodau cyhoeddus eraill ddarparu cymorth." Dylid diwygio'r statudau perthnasol, gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, er mwyn nodi, lle bo awdurdod tai lleol yn gofyn am gydweithrediad yn yr amgylchiadau hyn, bod dyletswydd i ddarparu'r cymorth hwnnw i'r ceisydd. Byddai'n rhaid meddwl a ellid gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth y DU, er enghraifft deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Adran Gwaith a Phensiynau, y Swyddfa Gartref ac ati. Rhaid cael ffordd o ddod â'r ddyletswydd i ben. Naill ai bydd yn parhau am gyfnod penodedig (er enghraifft, 12 mis yn unol â'r lleiafswm tenantiaeth effeithiol dan Ddeddf Rhentu Doeth Cymru), neu byddai'n dod i ben pan fydd asesiad arall wedi'i wneud a bod yr asesiad yn dod i'r casgliad nad oes ar y ceisydd angen cymorth*

*mwyach i'w helpu ef neu hi i gadw'r llety. Byddai angen i ganllawiau roi manylion ynglŷn â pha gymorth fyddai'n cael ei gynnwys a sut y byddai'n rhyngweithio â meysydd cymorth eraill.*
***Neu***
*1b) Gellid diwygio Adran 59 o Ddeddf Tai Cymru (sy'n cynnwys meini prawf ar gyfer addasrwydd llety) i nodi na fydd llety sydd wedi'i sicrhau ar gyfer rhywun sy'n cael ei asesu fel un sydd angen cymorth yn addas oni bai fod y cymorth hwnnw'n mynd i gael ei ddarparu (a bod y ceisydd wedi'i hysbysu ynglŷn â faint o gymorth fydd yn cael ei ddarparu). Enghreifftiau o ymadroddion priodol fyddai "person sydd angen cymorth er mwyn cadw llety" neu "person sydd ag anghenion niferus a chymhleth sydd angen cymorth er mwyn cadw llety."*

### Beth a drafodwyd

- Dywedyd bod angen i ddyletswydd i helpu i gadw tenantiaeth gynnwys yr awdurdod lleol ehangach, ac nid y tîm opsiynau tai yn unig.
- Teimlid bod cynnwys dyletswydd i helpu i gadw tenantiaeth yn unol ag ethos Llywodraeth Cymru o sicrhau bod achosion o ddigartrefedd 'yn brin, yn fyrhoedlog ac nad ydynt yn digwydd eto'.
- Cyfeiriodd rhai aelodau o'r Panel at bwysigrwydd sicrhau bod cymorth o'r fath wedi'i ymgorffori yn y gyfraith ac nad yw'n dibynnu ar ewyllys da i helpu i sicrhau cyllid ar gyfer y gwasanaethau hanfodol hyn.
- Awgrymwyd bod gan landlordiaid cymdeithasol bryderon pan nad oes cymorth i helpu tenantiaid. Os yw'r Panel yn ystyried cynyddu dyraniadau i aelwydydd digartref, bydd y cymorth hwn yn bwysig iawn.
- Trafodwyd a ddylai'r ddyletswydd fod ar yr awdurdod lleol yn hytrach nag ar yr awdurdod tai lleol yn benodol, gan fod y gyllideb ar gyfer cymorth o'r fath yn dod gan yr awdurdod lleol ehangach ac nad yw o reidrwydd yn cael ei dal gan yr adrannau tai.
- Trafodwyd pwysigrwydd diffinio beth yw ystyr "cymorth" yn y ddyletswydd hon. Er enghraifft, gofynnodd un aelod a oedd posibilrwydd y gallai gwasanaethau cymorth gynnwys cymorth ariannol megis talu ôl-ddyledion rhent?
- Codwyd yr angen i gadarnhau beth yw'r ffrâm amser ar gyfer y ddyletswydd hon. Gallai'r ffrâm amser fod yn unrhyw beth o 12 mis i'r adeg y mae tenantiaeth yn cael ei hystyried yn sefydlog a heb fod mewn perygl.
  Pwysleisiwyd y byddai angen canllawiau ar gydweithredu ar gyfer y ddyletswydd hon, ynghyd â darparu cymorth ymarferol ac adnoddau ychwanegol.

### Crynodeb o dystiolaeth i gefnogi'r trafodaethau hyn

#### Adborth gan randdeiliaid

- Nodwyd bod pwysigrwydd diwallu anghenion cymorth unigol a chynorthwyo pobl i gadw tenantiaeth yn un o'r prif themâu mewn digwyddiadau rhanddeiliaid a arweiniwyd gan Crisis.
- Dywedodd rhanddeiliaid y byddai angen i'r cymorth a ddarperid dan y ddyletswydd hon adlewyrchu anghenion a dymuniadau'r unigolyn. Fodd bynnag, roedd enghreifftiau yn cynnwys yr awdurdod lleol yn gweithredu fel gwarantwr ac yn darparu cymorth a chyngor mewn cysylltiad â materion ariannol.
- Dywedwyd mai sefydliadau sydd ag arbenigedd yn y meysydd gwahanol hyn fyddai yn y sefyllfa orau i ddarparu cymorth o'r fath ac y dylid cael yr adnoddau sydd eu hangen i sicrhau bod hyn yn bosibl.

### Adborth gan Arbenigwyr drwy Brofiad

- Cyfeiriodd yr arbenigwyr drwy brofiad yn aml at bwysigrwydd cymorth i gadw tenantiaeth. Nododd pobl nifer o achosion lle na fyddent o reidrwydd wedi mynd yn ddigartref pe baent wedi cael cymorth ar yr adeg iawn, neu na fyddai eu sefyllfa wedi gwaethygu.

### Ymchwil

### Effaith cymorth sy'n gysylltiedig â thai

- Yn 2020, cyhoeddwyd papur ymchwil yn edrych ar effaith gymdeithasol ac ariannol y Grant Cefnogi Pobl (Grant Cymorth Tai erbyn hyn). Mae'r Grant Cymorth Tai yn rhaglen grant ymyriad cynnar i gefnogi gweithgaredd sy'n atal pobl rhag mynd yn ddigartref, yn sefydlogi eu sefyllfa dai, neu'n helpu pobl a allai fod yn ddigartref i ddod o hyd i lety. Roedd y prif gasgliadau'n dangos bod yr holl gyfranogwyr yn cyfeirio at welliant arwyddocaol yng nghamau cynnar iawn eu cymorth (ar ôl y cyfnod o 'hyd at 2 fis'). Mae'r gwelliant hwn at ei gilydd yn cael ei gynnal drwy gydol y Grant Cymorth Tai.
- Roedd adolygiad o dystiolaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2011[71] yn nodi bod angen dull gweithredu eang sy'n barod i fynd i'r afael â phroblemau amrywiol a chymhleth er mwyn sicrhau canlyniadau tai da i bobl agored i niwed. Er bod llawer o broblemau a wynebir gan bobl agored i niwed yn ymddangos yn rhai nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â thai mae'n amlwg eu bod yn effeithio ar ganlyniadau sy'n gysylltiedig â thai.

## Potensial i amlinellu rhagor o fanylion i fynd gyda'r argymhelliad ar 3 Chwefror

*1. Mae'n ofynnol i'r Panel nodi ffrâm amser ar gyfer y ddyletswydd i helpu i gadw tenantiaeth. Gall y ffrâm amser fod am gyfnod penodol neu cyhyd ag y mae tenantiaeth yr unigolyn yn parhau'n ansefydlog.*

*2. Nid yw cymorth i gadw tenantiaeth yn disgyn yn awtomatig ar ysgwyddau'r awdurdod tai lleol. Yn hytrach, dylai fod yn rhan o ddull gweithredu amlasiantaethol, lle mae'r partner mwyaf priodol yn arwain ar ddiwallu anghenion cymorth mewn partneriaeth, ag ymrwymiad i gydweithredu ag asiantaethau a sefydliadau eraill.*

*3. Mae'r canllawiau hynny, er enghraifft, yn cynnwys enghreifftiau o beth allai'r ddyletswydd hon ei gynnwys. Er enghraifft, gallai gynnwys gweithredu fel gwarantwr, cynorthwyo i gael cymorth iechyd meddwl, neu gymorth i ddeall materion ariannol.*

# 8. Ystyriaethau ar gyfer cysylltiad lleol

## Amlinelliad byr o argymhelliad mis Chwefror

Yn ei gyfarfod ar 3 Chwefror, penderfynodd y Panel argymell cadw'r prawf cysylltiad lleol cyfreithiol, ond wedi'i addasu er mwyn bod yn fwy hyblyg i anghenion unigol ac yn seiliedig ar drawma.

Ystyriwyd y gallai addasiadau o'r fath gynnwys:

[71] Price, S. (2011) Housing related support interventions: A rapid review of the evidence from descriptive studies

- Ychwanegu rhagor o grwpiau at y rhestr o rai sydd wedi'u heithrio o'r prawf;
- Darparu mwy o eglurder ynglŷn â'r categori "rhesymau arbennig" fel ffordd o sicrhau dull gweithredu cenedlaethol mwy cyson a seiliedig ar drawma;
- Sicrhau bod gwasanaeth ailgysylltu o'r dechrau i'r diwedd, â chymorth priodol, ar gael i alluogi pobl i adleoli i'r wlad y maent yn hanu ohoni yn hytrach na bod yn ddigartref yng Nghymru, dim ond os yw hyn er eu pennaf les ac os ydynt yn ffafrio hynny;
- Sicrhau bod y prawf yn cael ei gymhwyso'n briodol, yn enwedig gan mai dyma'r unig un o'r tri phrif brawf cyfreithiol sydd ar ôl.

**Y prif bwyntiau a drafodwyd gan y Panel mewn cysylltiad â materion yn ymwneud â chysylltiad lleol a'r angen am eithriadau ar gyfer grwpiau amrywiol**

- Teimlai nifer o aelodau'r Panel fod cysylltiad lleol yn niweidiol, yn achosi rhwystrau i nifer o grwpiau sydd â rhesymau dilys dros wneud cais am gymorth tai mewn ardal newydd, ac yn aml yn cael ei gymhwyso'n anghywir a'i ddehongli mewn ffyrdd gwahanol.
- Er hyn, roedd grŵp cyfeirio'r awdurdod lleol yn gryf yn erbyn diddymu'r prawf, gan ddweud y byddai hynny'n ei gwneud yn anodd i awdurdodau lleol gynllunio cymorth a bod posibilrwydd y byddai rhai ardaloedd yn cael llawer iawn o geisiadau. O ganlyniad, teimlid mai'r ffordd ymlaen o bosibl fyddai ceisio meddalu'r prawf yn hytrach na'i ddileu.
- Teimlid fod cysylltiad lleol yn offeryn porthgadw yn hytrach na dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Awgrymodd aelod o'r Panel y byddai cadw cysylltiad lleol mewn gwirionedd yn golygu y bydd pobl yn ddigartref ar y stryd bob amser, a nododd fod rhoi'r gorau i ddefnyddio profion cysylltiad lleol yn ystod pandemig Covid-19 wedi arwain at ostyngiad mewn digartrefedd ar y stryd.
- Teimlai aelodau'r Panel fod y prawf cysylltiad lleol presennol yn rhy gyfyng a bod angen ei ehangu a'i wneud yn fwy cyffredinol o ran y ffordd y mae'n cydnabod bod cysylltiad wedi'i sefydlu. Er enghraifft, er mwyn ystyried mynediad at rwydweithiau cymorth, a chysylltiadau â chymunedau LHTDC+.
- Teimlai aelodau'r Panel fod yn rhaid i'r broses o gymhwyso'r prawf cysylltiad lleol fod yn bragmatig ac yn seiliedig ar drawma.
- Os nad yw cysylltiad lleol yn cael ei ddiddymu, a bod y ddau brawf cyfreithiol arall, sef bwriadoldeb ac angen blaenoriaethol, yn cael eu diddymu, mae hyn yn rhoi pwyslais mawr ar y prawf fel offeryn porthgadw posibl. Byddai'n rhaid cael canllawiau statudol llym a chlir ar gyfer ei weithredu.
- Bydd canllawiau – a rheoleiddio o bosibl – yn hanfodol er mwyn egluro mannau llwyd, gan annog awdurdodau lleol i ddod ag adnoddau at ei gilydd a sicrhau cysondeb ledled Cymru.
- Trafodwyd bod y cymal "amgylchiadau arbennig" yn y gyfraith yn eang iawn, a bod y ffordd y mae'n cael ei gymhwyso yn amrywio. Gofynnodd aelodau'r Panel tybed a allai'r "amgylchiadau arbennig" fod yn fwy cysylltiedig â dull gweithredu sy'n seiliedig ar drawma ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn?
- Teimlai rhai aelodau o'r Panel bod angen mynd i'r afael â'r modd y defnyddir cysylltiad lleol i atal ceiswyr rhag gwneud cais am gymorth.
- Nododd aelodau'r Panel fod y gyfraith yn glir iawn nad yw cysylltiad lleol yn gymwys mewn llety dros dro.
- Cododd aelodau'r Panel yr angen am 'wasanaeth ailgysylltu' neu gymorth rhannol i amddiffyn y rhai hynny nad oes ganddynt gysylltiad lleol.
- Gofynnwyd hefyd sut y dylid mynd i'r afael â chyfeiriadau yn ôl i Loegr.

## Crynodeb o dystiolaeth i gefnogi'r trafodaethau hyn

### Adborth gan randdeiliaid

Yn ystod nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu yn cael eu harwain gan Crisis, dywedwyd bod cysylltiad lleol yn rhwystr mawr i nifer o grwpiau sy'n wynebu risg. Cafwyd adborth hefyd yn dweud bod y prawf yn aml yn cael ei gamddeall a bod y dehongliadau'n amrywio o'r naill awdurdod lleol i'r llall. Mae'r enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys y canlynol:

- Pobl ifanc yn gadael gofal sydd eisiau aros yn ardal y teulu maeth, lle maent wedi adeiladu rhwydweithiau o bosibl, yn cael clywed nad oes ganddynt gysylltiad lleol, er bod y gyfraith bresennol yn caniatáu hyn.
- Neu, bobl ifanc eraill sy'n gadael gofal sydd eisiau symud yn ôl i'w hardal wreiddiol hefyd yn cael clywed nad yw hynny'n bosibl gan nad oes ganddynt 'ddigon' o gysylltiad.
- Gall cysylltiad lleol fod yn rhwystr yn gyffredinol i bobl leol sydd o bosibl heb gael y profiad bywyd i ddatblygu cysylltiadau lleol y tu hwnt i'w hawdurdod lleol ac a allai wynebu risg o gael eu cam-drin yn eu hawdurdod cartref.
- Goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sydd i fod wedi'u heithrio o gysylltiad lleol yn dweud nad yw hyn yn gweithio yn ymarferol bob amser.
- Neu, goroeswyr yn dweud bod eu hawdurdod yn dehongli'r prawf fel pe na bai ganddynt ddewis arall ar wahân i fynd i awdurdod arall, ac weithiau yn cael eu symud oddi wrth rwydweithiau cefnogi lle'r oeddent yn dymuno aros yn eu hawdurdod cartref.
- Dywedwyd hefyd ei bod yn bosibl y gallai cyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gael eu heithrio o gysylltiad lleol, er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu lletya yn ddigon pell oddi wrth eu dioddefwr, os yw'r dioddefwr yn dal yn yr ardal.
- Cyfeirid yn aml at bobl o'r gymuned LHDTC+, yn enwedig pobl ifanc, fel rhai a oedd yn wynebu risg mewn cysylltiad â'r prawf cysylltiad lleol. Mae wedi'i gofnodi y gallai'r grŵp hwn ofyn am gymorth mewn ardal newydd er mwyn dianc rhag camdriniaeth neu er mwyn adeiladu rhwydweithiau gyda'r gymuned LHDTC+. Mae llawer o bobl yn mynd yn ddigartref ar y stryd, yn hytrach na dychwelyd i ardal lle maent yn teimlo'n anniogel, heb gysylltiadau neu ar eu pen eu hunain.
- Weithiau mae ar bobl anabl eisiau symud i ardaloedd newydd â thrafnidiaeth, tai a gofal iechyd mwy hygyrch.
- Cyfeiriwyd at gysylltiad lleol hefyd fel rhwystr i gyn-filwyr a'u teuluoedd. Pwysleisiwyd y gallai cyn-filwyr fod yn chwilio am dŷ mewn math arbennig o ardal a fydd yn hybu eu hadferiad o PTSD a bod partneriaid cyn-filwyr sydd wedi gwahanu yn gallu cael anhawster i gael cymorth tai gan eu bod wedi symud o gwmpas yn rheolaidd. Gall hyn fod yn wir hyd yn oed lle mae eu plentyn yn mynd i'r ysgol.
- Mae cysylltiad lleol hefyd yn cael ei ystyried yn un o'r prif rwystrau i rai sy'n gadael y carchar. Gall rhywun sy'n gadael carchar fod eisiau byw mewn ardal newydd er mwyn osgoi dylanwadau negyddol neu stigma. Neu, gall natur y drosedd y maent wedi ei chyflawni olygu ei bod yn anodd iddynt aros yn eu hawdurdod cartref.

### Adborth gan Arbenigwyr drwy Brofiad

Roedd yr adborth a gyflwynwyd ym mhapurau'r arbenigwyr drwy brofiad yn debyg iawn i'r sylwadau uchod a gafwyd o'r digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Roedd y dyfyniadau allweddol yn cynnwys:

*"Mae llawer o resymau pam y gallai pobl fod eisiau adleoli. Gall rhywun fod mewn sefyllfa lle mae arno angen dechrau newydd, efallai oherwydd bod perthynas wedi chwalu neu oherwydd diffyg cyfleoedd."*

*"Mae ar lawer o bobl eisiau symud o ardal gan fod ganddynt gysylltiadau â defnyddio cyffuriau neu drais yn eu hardal leol. Nid yw'r gyfraith bresennol yn ystyried hyn ac mae pobl yn cael eu dal mewn cylch o ddigartrefedd …"*

*"Yn enwedig i rai sy'n gadael carchar a phobl sy'n delio â cham-drin domestig oherwydd mae'n bosibl na wnewch chi byth stopio'r cylch."*

*"Dylid ymestyn y rheolau i gynnwys teulu estynedig, y rhai sydd wedi cael gwaith yn yr ardal, ac yn fwyaf arbennig y rhai sydd â phlant dan 18 oed yn yr ardal."*

Er hyn, teimlai ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn cyfrannu tuag at bapurau'r arbenigwyr drwy brofiad y dylai pobl o'r ardal leol gael blaenoriaeth yng nghyswllt tai, a bod cysylltiad lleol yn ffordd o sicrhau hyn. Roedd eraill yn poeni ynglŷn â'r pwysau ar ardaloedd awdurdodau lleol penodol pe bai gan bobl heb gysylltiad lleol hawl i gael tŷ yno.

## Potensial i amlinellu rhagor o fanylion i fynd gyda'r argymhelliad ar 3 Chwefror

O ystyried cryfder y teimladau ar y ddwy ochr, cytunwyd y byddai'r Panel yn argymell bod cysylltiad lleol yn parhau, ond ar yr amod bod:

- Canllawiau'n cael eu hadolygu'n ofalus er mwyn rhoi mwy o eglurder ynglŷn â "rhesymau arbennig" gan sicrhau eu bod yn rhoi sylw i'r pwyntiau a gyflwynwyd i'r Panel ac yn ystyried dull gweithredu sy'n seiliedig ar drawma.
- Ystyriaeth yn cael ei rhoi i ymestyn y rhestr o'r rhai sydd wedi'u heithrio o'r prawf cysylltiad lleol.
- Gwasanaeth ailgysylltu yn cael ei ystyried.
- Ystyriaeth yn cael ei rhoi i ffyrdd o sicrhau nad yw'r gyfraith yn cael ei chymhwyso yn anghywir.
- Adolygu'r angen i gadw'r prawf.

Er mwyn ychwanegu rhagor o fanylion at yr amodau hyn ac o ganlyniad i'r pwyntiau a godwyd gan randdeiliaid ac arbenigwyr drwy brofiad, efallai y byddai'r Panel yn hoffi cynnwys yr argymhellion a ganlyn:

*1. Bod y grwpiau a ganlyn sy'n wynebu risg yn cael eu hychwanegu at y rhestr o'r rhai sydd wedi'u heithrio o'r prawf/egluro fel rhai sy'n perthyn i'r rhestr honno, ac yn cael eu hamlinellu felly mewn canllawiau statudol:*

*a. Gadawyr carchar sydd angen symud i ardal newydd fel rhan o'u hadsefydliad, neu i'w helpu i fodloni'r cyfyngiadau a bennwyd ynglŷn â ble y gallant fyw o ganlyniad i'w trosedd. Yn yr achos hwn, lle bynnag y bo'n ymarferol, dylid cymhwyso'r prawf cysylltiad lleol yn y cam dyletswydd atal, er mwyn osgoi sefyllfa lle mae un awdurdod tai lleol yn helpu carcharor yn y cam atal ac yna'n cyfeirio at awdurdod tai lleol arall fel y mae'r amser rhyddhau'n dod yn nes a'r brif ddyletswydd tai yn dod yn gymwys.*
*b. Pobl ifanc 25 oed ac iau.*

*ci. Bod y meini prawf cysylltiad lleol yn adran 81 yn cael eu diwygio er mwyn nodi y dylai unigolyn sydd wedi derbyn gofal, sydd wedi cael llety neu wedi cael ei faethu gael cysylltiad lleol ag ardal yr awdurdod gwasanaethau cymdeithasol a oedd yn gyfrifol amdano, ac os yw'n cael ei leoli y tu allan i'r ardal honno, â'r ardal lle'r oedd y llety.*

***Neu***

*cii. Bod y rhai hynny sydd â phrofiad o fod mewn gofal wedi'u heithrio o gysylltiad lleol.* [Mae cyngor cyfreithiol hefyd yn argymell y gellir diwygio'r meini prawf cysylltiad lleol i gynnwys gadawyr gofal, gan ddilyn y model yn Lloegr.]

*d. Y rhai sy'n ffoi rhag cam-drin domestig, trais a/neu gam-drin rhywiol*

*e. Aelodau o'r gymuned LHDTC+ sy'n ffoi rhag camdriniaeth neu sy'n ceisio cysylltiad â'r gymuned LHDTC+*

*f. Y rhai sydd â phlentyn sy'n mynychu ysgol yn yr ardal*

*g. cyn-filwyr ac aelodau o'r teulu a oedd yn arfer byw gyda chyn-filwyr*

*h. Ceiswyr anabl sydd angen mynediad at gymorth penodol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys ceisydd sydd eisiau symud o ardal wledig er mwyn cael mynediad at drafnidiaeth hygyrch neu geisydd byddar sydd eisiau cysylltu â'r gymuned fyddar*

*i. Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr*

*j. Nad yw cysylltiad lleol yn gymwys i bobl sy'n defnyddio sylweddau lle byddai aros yn yr ardal yn amharu ar adferiad, gan eu gadael yn rhydd i wneud cais i unrhyw awdurdod tai lleol. Gallai'r Panel ddewis cynnwys cafeat yn nodi, os yw cysylltiad lleol i fod yn gymwys, y dylid cynnig llety i'r ceisydd sydd mor briodol ag sy'n ymarferol yn yr awdurdod yn y cam dyletswydd atal.*

*2. Bod canllawiau yn nodi y dylid cymhwyso'r prawf cysylltiad lleol mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ystyried asesiad ac amgylchiadau unigolyn.*

*3. Dylai ceiswyr gael ffordd o apelio yn erbyn penderfyniad a wnaethpwyd ynglŷn â chysylltiad lleol a chael eu hysbysu ynglŷn â'u hawl i wneud hynny.*

*4a. Dylai diwygiadau neu ganllawiau deddfwriaethol nodi, lle mae camdriniaeth wedi digwydd (gan gynnwys cam-drin domestig, ond nid yn gyfyngedig i hynny) a bod y ceisydd yn dal i brofi trawma, neu y byddai'n profi trawma pe bai'n cael ei gyfeirio dan gysylltiad lleol, mai'r awdurdod tai lleol sydd â'r hawl i benderfynu a ddylid cyfeirio ai peidio;*

*Neu*

*4b. Dylai diwygiadau neu ganllawiau deddfwriaethol nodi, lle mae camdriniaeth wedi digwydd (gan gynnwys cam-drin domestig, ond nid yn gyfyngedig i hynny) a bod y ceisydd yn dal i brofi trawma, neu y byddai'n profi trawma pe bai'n cael ei gyfeirio dan gysylltiad lleol, mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylai'r awdurdod lleol wneud atgyfeiriad lleol. [Sylwer na ddylid cymysgu hyn ag achosion o "wynebu risg", sydd â deddfwriaeth yn bodoli'n barod.]*

*5. Dylai'r gofyniad o brawf fod unigolyn wedi'i eithrio fod yn hyblyg er mwyn ystyried dull gweithredu sy'n seiliedig ar drawma. Er enghraifft, dylid derbyn cyfeiriadau neu atgyfeiriadau gan weithwyr proffesiynol er mwyn sicrhau nad yw ceiswyr yn gorfod ailadrodd eu hanes, sy'n gallu bod yn brofiad trawmatig.*

# 9. Cydraddoldeb

## Trosolwg byr o adroddiad Tai Pawb

Lluniodd Tai Pawb adroddiad ymchwil ar brofiadau pobl â nodweddion gwarchodedig sydd wedi bod yn ddigartref yng Nghymru. Mae’r prif bwyntiau a godwyd yn yr adroddiad hwn yn cynnwys:

- Ar gyfer grwpiau arbennig, megis Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a chymunedau LHDTC+, mae rhyngweithio â’r gyfraith, awdurdodau lleol a gwasanaethau yn arwain at fathau mwy cudd o ddigartrefedd.
- Pwysigrwydd cymorth eiriolaeth.
- Mae’r adroddiad yn pwysleisio’r angen am gyflenwad o dai a stoc i ddiwallu anghenion amrywiol gwahanol grwpiau sy’n cael eu gwarchod. Er enghraifft, gall cartrefi mwy fod yn bwysig i bobl o dras ethnig arbennig, ystyried safleoedd i deithwyr, yr angen am dai hygyrch.
- Mae’r adroddiad yn dod i’r casgliad y dylai diwygiadau deddfwriaethol edrych ar y sefyllfa yn ei chyfanrwydd, ac ar faterion cydraddoldeb yn gyfannol, yn hytrach nag ar lefelau unigol yn unig, ac mae’n argymell bod angen i’r Panel ddod o hyd i ateb i groestoriadedd cyfraith tai a digartrefedd â chynifer o wahanol feysydd polisi (â rhai wedi’u datganoli).

## Y prif bwyntiau a godwyd gan y Panel

- Roedd y Panel yn cydnabod bod anghydraddoldeb o ran ansawdd a safonau llety dros dro a llety sefydlog.
- Teimlid os oes gwaith i’w wneud ar ddeddfwriaeth/canllawiau yn ymwneud â safonau, sut all y Panel sicrhau bod yr anghydraddoldebau hyn y mae rhai grwpiau penodol yn eu hwynebu yn cael eu lleihau? Dylai ystyriaeth o hawliau gwybodaeth, â chanllawiau a/neu ddyletswyddau ychwanegol i awdurdodau lleol roi sylw penodol i grwpiau sy’n wynebu risg, fod ar yr agenda.
- Penderfynodd y Panel ystyried fel argymhelliad y dylai pobl gael mynediad at eiriolaeth ar yr adeg y maent yn cael mynediad neu’n gwneud cais (gan feddwl yn benodol am grwpiau megis LHDTC a phobl ifanc).
- Cyfeiriwyd at natur diwylliannol ansensitif ac amhriodol darpariaeth i bobl o gefndiroedd ymylol sy’n profi digartrefedd.

## Argymhellion posibl

*1a. Gellir atgyfnerthu anghenion cydraddoldeb mewn camau rhesymol sy’n cael eu rheoli ar hyn o bryd gan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, â chanllawiau newydd;*

*1b. Gellid barnu bod ceiswyr lloches sy’n cael eu hysbysu eu bod wedi cael hawl i aros (ac o ganlyniad y byddant ar ryw adeg yn cael hysbysiad 28 diwrnod i roi’r gorau) yn wynebu bygythiad o ddigartrefedd (naill ai oherwydd y derbynnir eu bod yn debygol o fod yn ddigartref cyn pen 6 mis neu oherwydd bod deddfwriaeth yn nodi eu bod yn cael eu hystyried fel rhai sy’n wynebu bygythiad o ddigartrefedd pan roddir hawl iddynt aros) a’i bod yn bosibl y gellid cael mecanwaith lle mae dyletswydd ar y Swyddfa Gartref i gyfeirio’r cyn geisiwr lloches ar gyfer cymorth digartrefedd bryd hynny.*

*1c. Bod yn rhaid i’r asesiad o angen a’r cynllun tai personol gynnwys, dan benawdau anghenion tai a chymorth sydd ei angen i gadw llety, ystyriaeth o unrhyw anableddau sydd gan y ceisydd neu unrhyw aelod o’i aelwyd.*

*1d. Ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth am wasanaethau tai mewn iaith glir.*

*1e. Ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol gyhoeddi a defnyddio cofrestrau tai hygyrch.*

*1f. Dylid hysbysu ceiswyr ynglŷn â'u hawl i herio penderfyniadau ar adegau perthnasol yn eu cais ac ynglŷn ag iaith glir.*

*1gi Bod eiriolaeth ar gael i geiswyr*

*Neu*

*1gii Bod eiriolaeth ar gael i geiswyr sy'n dod o fewn grŵp sy'n cael ei ystyried yn un sy'n wynebu risg benodol.*

*1h. Bod Llywodraeth Cymru yn ceisio gwella'r dulliau o goladu data am bobl â nodweddion gwarchodedig sy'n cael defnyddio gwasanaethau digartrefedd.*

***Sipsiwn, Roma a Theithwyr***

*2a. Rhaid ymdrin yn fuan â cheisiadau am gymorth digartrefedd gan y rhai y gofynnir iddynt adael tir dan Ddeddf yr Heddlu, Troseddau, Dedfrydu a Llysoedd 2022, a chynnig llety interim yn fuan.*

*Gallai'r Panel ystyried:*

*2b. A ddylid nodi y bydd safleoedd, yn hytrach na llety brics a morter, yn cael eu hystyried at ei gilydd yn llety addas i'r rhai o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ac o ganlyniad, na fyddai llety brics a morter yn gyffredinol yn cael ei ystyried yn llety addas.*

# 10. Deddfwriaeth gynllunio

## Trosolwg byr o'r ddeddfwriaeth bresennol

Mae **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015** yn darparu ar gyfer cynllunio strategol drwy Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol neu'n caniatáu i rai ceisiadau cynllunio gael eu cyflwyno yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru, yn hytrach nag i awdurdodau cynllunio lleol, ac yn cyflwyno gweithdrefn statudol cyn cais ar gyfer rhai categorïau o geisiadau cynllunio.

**Cynyddu'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy drwy gynllunio**

Yn 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol gynnwys safleoedd tai fforddiadwy mewn cynlluniau datblygu lleol. Rhaid i o leiaf 50% o'r tai sydd ar y safleoedd hyn fod yn dai fforddiadwy.

Mae **adrannau 50 i 52 o Ddeddf Tai Cymru**, yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau tai lleol i gynnal adolygiad digartrefedd a llunio/cyhoeddi strategaeth ddigartrefedd. Amcanion y strategaeth, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r adolygiad, yw sicrhau:

a. Atal digartrefedd;
b. Bod llety addas ar gael, neu y bydd ar gael, i bobl sy'n ddigartref neu y gallent fod yn ddigartref; a
c. Bod cefnogaeth foddhaol ar gael i bobl sy'n ddigartref neu y gallent fod yn ddigartref (adran 52(1)).

Rhaid i'r strategaeth amlinellu camau gweithredu "*mewn perthynas â'r rheini y mae'n bosibl bod angen cymorth arnynt yn benodol os ydynt yn ddigartref neu y gallent fod yn ddigartref, gan gynnwys yn benodol—*

*(a) pobl sy'n gadael y carchar neu lety cadw ieuenctid,*
*(b) pobl ifanc sy'n gadael gofal,*
*(c) pobl sy'n gadael lluoedd arfog rheolaidd y Goron,*
*(d) pobl sy'n gadael yr ysbyty ar ôl cael triniaeth feddygol am anhwylder meddyliol fel claf preswyl, ac*
*(e) pobl sy'n cael gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned."* (adran 52(6)).

Mae'r Canllawiau ym Mhennod 5 o'r Cod. Dylai strategaeth yr awdurdod tai lleol adlewyrchu Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd (fel yr oedd) Llywodraeth Cymru. Dylid cynnwys gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, cyfiawnder troseddol a sefydliadau eraill, a dylid cael dull gweithredu corfforaethol ar draws yr awdurdod tai lleol yn ei gyfanrwydd fel bod disgwyl i dai, cynllunio, gwasanaethau cymdeithasol, addysg, cynhwysiant cymdeithasol, cyllid, iechyd yr amgylchedd, y Prif Weithredwr a chydraddoldeb ac amrywiaeth o leiaf gael eu cynnwys.

Ym mharagraff 5.41 mae'r Cod yn disgrifio'r themâu ar gyfer y strategaeth: "*Mae'r themâu a ganlyn yn sail i'r Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd, a dylid ystyried y rhain wrth gynllunio gwasanaethau digartrefedd:*

*a. atal digartrefedd lle bynnag y bo modd*
*b. gweithio ar draws ffiniau sefydliadol a pholisi*
*c. rhoi'r defnyddiwr gwasanaeth wrth graidd darparu gwasanaeth*
d. *sicrhau cynhwysiant cymdeithasol a mynediad cyfartal at wasanaethau*."

**Asesiadau o'r farchnad dai leol**

Dan adran 8 o Ddeddf Tai 1985 mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am gynnal adolygiad bob hyn a hyn o'r angen am dai. Wrth symud ymlaen â'r canllawiau hyn, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ailysgrifennu asesiadau o'r farchnad dai leol bob pum mlynedd a diweddaru'r asesiadau hynny unwaith yn ystod y cyfnod hwn o bum mlynedd gan ddefnyddio adran 87 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

Mae adran 87 yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdod tai lleol yng Nghymru gael strategaeth yn ymwneud â materion tai wedi'i nodi gan Weinidogion Cymru.

Mae canllawiau penodol yn tynnu sylw at y Strategaeth Ailgartrefu Cyflym ac yn nodi ei bod yn *"hanfodol sicrhau cydgysylltiad rhwng y cylchoedd cynllunio sy'n gysylltiedig ag anghenion digartrefedd, y Rhaglen Grant Cymorth Tai, Cynllunio ar gyfer Ailgartrefu Cyflym ac Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol"*.

**Polisi Cynllunio Cymru, 10fed Argraffiad**

Roedd y 10fed argraffiad o ganllawiau Polisi Cynllunio Cymru yn cyflwyno'r cysyniad o 'greu lleoedd' a fwriadwyd fel sail i wneud penderfyniadau rheoli yn ymwneud â llunio a datblygu cynlluniau fel bod y system gynllunio yn gallu cyfrannu'n effeithiol tuag at y dasg o gyflawni'r nodau statudol sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd rhan o hyn yn cynnwys 'Lleoedd Egnïol a Chymdeithasol' a ddylai ymwneud â sicrhau bod datblygiadau tai, manwerthu, cyflogaeth a chymunedol a hamdden yn cael eu darparu mewn lleoliadau sy'n lleihau'r angen i deithio a lle mae dewis o ddulliau trafnidiaeth ar gael.

## Y prif bwyntiau a drafodwyd gan y Panel

- Dywedwyd bod adran 87 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol yn nodi ei bod yn ofynnol i Awdurdod Tai lleol baratoi strategaeth ar gyfer cael pwerau i asesu'r farchnad dai. Teimlid y gellid ychwanegu cyfeiriad at y ddeddfwriaeth ar ystyried anghenion aelwydydd digartrefedd fel un o'r gofynion

penodol ar gyfer awdurdodau lleol wrth baratoi strategaethau a'u hasesiadau o'r farchnad dai leol.

- Yn ychwanegol at hyn, awgrymwyd y gallai diwygiad tebyg i Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 helpu i sicrhau bod aelwydydd digartref a'r agenda ailgartrefu cyflym yn cael eu hystyried mewn cynlluniau strategol ac yn y Cynlluniau Datblygu Lleol.
- Gofynnodd aelod o'r Panel a fyddai'n bosibl nodi pa fathau o dai cymdeithasol fydd yn cael eu hadeiladu ym mhob awdurdod lleol ar sail anghenion y boblogaeth, yn enwedig pobl ifanc.

## Crynodeb o dystiolaeth i gefnogi'r trafodaethau hyn

### Adborth gan randdeiliaid

Cafodd y cyflenwad o dai fforddiadwy a'r gwahanol fathau o dai sydd ar gael (er enghraifft, eiddo un ystafell wely) ei nodi droeon fel mater creiddiol a sylfaenol mewn digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid, cyfarfodydd unigol a grwpiau cyfeirio. Er nad yw'n hollol o fewn cylch gwaith y Panel, mae'n gefnlen polisi bwysig i'r argymhellion sy'n cael eu gwneud.

Teimlid hefyd bod meysydd posibl megis asesiadau o'r farchnad dai leol y gellid eu cryfhau i helpu i gefnogi gwaith cynllunio.

Cyfeiriwyd hefyd at yr anhawster a wynebir gan aelodau etholedig lleol sy'n gwrthwynebu cynlluniau tai lleol fel problem yng nghyswllt adeiladu cyflenwad, yn enwedig mewn cysylltiad â darpariaeth megis tai gwlyb.

### Adborth gan Arbenigwyr drwy Brofiad

Roedd yr arbenigwyr drwy brofiad yn aml yn cyfeirio at bwysigrwydd cael llety addas, gan bwysleisio nad yw'r cyflenwad o dai yng Nghymru yn cynnwys rhai mathau penodol o letyau, er enghraifft tai gwlyb a sych.

Cyfeiriodd pobl â phrofiad personol at anawsterau bod wedi'u dal mewn llety dros dro lle nad oes llawer o letyau sefydlog i symud ymlaen iddynt, gan bwysleisio bod yr amodau mewn llety dros dro yn ei gwneud yn anodd iddynt ailadeiladu eu bywydau, cael gwaith, coginio prydau bwyd gartref a chymryd rhan mewn gweithgareddau y mae llawer o bobl yn eu cymryd yn ganiataol.

### Ymchwil

- Roedd rhaglen waith Llywodraeth Cymru yn 2016, 'Symud Cymru Ymlaen 2016 - 2021', yn cynnwys ymrwymiad i ddarparu 20,000 yn rhagor o gartrefi fforddiadwy yn ystod 2016-21, gan gynnwys helpu i adeiladu mwy na 6,000 o gartrefi drwy'r cynllun Cymorth i Brynu.
- Fodd bynnag, nodwyd rhwystrau sy'n gwneud y dasg o gyrraedd y targed hwn yn anodd, gan gynnwys cost gynyddol adeiladu, anhawster wrth geisio cael cyflenwad o ddeunyddiau adeiladu ar ôl Brexit a chyrraedd targedau lefelau ffosffad. [72]
- Ym mis Tachwedd 2019, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddau adroddiad ar ystadegau tai fforddiadwy fel rhan o raglen waith ledled y DU i wella ystadegau tai a chynllunio:

[72] https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/cynyddu-r-cyflenwad-tai/

(a) *Comparing affordable housing in the UK*,[73] erthygl yn cymharu ystadegau tai fforddiadwy ledled y DU
(b) *Affordable Housing Statistics in the UK*,[74] adolygiad o ddiffiniadau, terminoleg a dichonoldeb harmoneiddio diffiniadau ystadegol o dai fforddiadwy.

- Fel rhan o'i Chynllun Gweithredu Cenedlaethol, Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru,[75] roedd Llywodraeth Cymru yn nodi ei bod yn ofynnol i bob awdurdod lleol ddatblygu Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym, yn amlinellu cynlluniau i nodi sut y bydd yr awdurdodau yn symud tuag at sicrhau bod aelwydydd digartref yn gallu symud i gartrefi sefydlog yn fuan. Fodd bynnag, methodd nifer o awdurdodau y terfyn amser a osodwyd.

## Argymhellion posibl

*1a. Bod adran 87 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol yn cael ei diwygio i nodi'n benodol ei bod yn ofynnol i awdurdodau tai lleol ystyried y boblogaeth ddigartref leol wrth amlinellu ei strategaeth a'u hasesiad o'r farchnad dai leol.*

*1b. Cynnwys cyfeiriad penodol at ddigartrefedd yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015.*

*1c. Defnyddio canllawiau statudol i sicrhau bod strategaethau tai, asesiadau o'r farchnad dai leol a Chynlluniau Datblygu Lleol yn ystyried ac yn cysylltu ag uchelgeisiau a nodwyd yng Nghynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym yr Awdurdod Lleol.*

*2. Bod Llywodraeth Cymru yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol greu proffil o'r stoc dai sydd ar gael ledled Cymru, gan gynnwys llety dros dro, llety hygyrch, tai gwlyb a sych, gan nodi ble mae bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer pob angen a nodwyd. Dylai adolygiad o'r fath fod yn sail i Gynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym.*

---

[73] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/housing/articles/comparingaffordablehousingintheuk/april2008tomarch2018
[74] https://analysisfunction.civilservice.gov.uk/policy-store/affordable-housing/
[75] Gweler [Rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru: cynllun gweithredu lefel uchel 2021 - 2026 (llyw.cymru)]

## Atodiad A

Trosolwg o'r modd y mae'r Llwybr Carcharorion yn integreiddio â Deddf Tai (Cymru) 2014.[76]

| Pryd? | Beth? | Pwy? |
|---|---|---|
| Derbyn i'r ddalfa | Sgrinio am anghenion tai<br>Cadw llety presennol lle mae hynny'n hyfyw | Cwmni Adsefydlu Cymunedol/Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol<br>Prison Link Cymru |
| Ffenestr ailsefydlu 12 wythnos | Cymorth i gadw neu gael llety | Cwmni Adsefydlu Cymunedol |
| 66 diwrnod cyn rhyddhau | Cyfeirio at awdurdod lleol am asesiad dan Adran 62 os na chaiff y broblem tai ei datrys.<br>Os oes dyletswydd Adran 66 neu 73, yr awdurdod lleol i gymryd camau rhesymol i helpu | Cwmni Adsefydlu Cymunedol<br><br>Awdurdod lleol |
| Adeg rhyddhau | Parhau â chamau rhesymol dan Adran 66 neu 73 fel y bo'n gymwys ac adolygu asesiad fel y bo'n briodol.<br>Os yw dyletswydd Adran 73 wedi dod i ben cyn rhyddhau, cynnal asesiad arall dan Adran 62 adeg rhyddhau.<br>Os yw'n gymwys (rheswm i gredu bod rhywun yn ddigartref, yn gymwys i gael cymorth ac ag angen blaenoriaethol) darparu llety interim dan Adran 68. | Awdurdod lleol<br><br>Awdurdod lleol<br><br>Awdurdod lleol |

[76] 'Homelessness: The Law in Wales', Adran: Prisoners and homelessness t.44, gweler https://www.lawworks.org.uk/sites/default/files/files/An-Intro-to-Homlessness-Housing-%28Wales%29-Act-Part-2-Delegates-notes-Jan2019.pdf